# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

## Adroddiad

**Mehefin 2020**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Aelodau Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

# Ysgrifenyddiaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

- Lleu Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:


**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Adolygiad o’r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

## Adroddiad

**Mehefin 2020**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# CYNNWYS

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **3**

**1. Crynodeb gweithredol** .......... **5**

**2. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** .......... **8**

**3. Datblygiad y Penderfyniad** .......... **10**

Gwneud penderfyniadau cyn y Bumed Senedd .......... 10

Newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad yn ystod y Bumed Senedd .......... 11

**4. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-26 – cefndir** .......... **15**

Cyd-destun .......... 15

Diben .......... 16

Y broses adolygu .......... 16

**5. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-2026 – canlyniadau** .......... **20**

Pennod 1: Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol .......... 20

Pennod 2: Rheolau cyflwyno hawliadau .......... 22

Pennod 3: Taliadau’r Aelodau .......... 24

Pennod 3A: Cymorth ychwanegol .......... 31

Pennod 4: Gwariant ar lety preswyl .......... 37

Pennod 5: Siwrneiau’r Aelodau .......... 41

Pennod 6: Cronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr .......... 43

Pennod 7: Cymorth staffio i’r Aelodau .......... 47

Pennod 8: Cymorth i bleidiau gwleidyddol .......... 52

Pennod 9: Aelodau sy’n gadael eu swyddi .......... 55

Materion eraill a godwyd yn ystod yr adolygiad .......... 56

**6. Costau'r Penderfyniad ar gyfer y Senedd yn 2021-2026** .......... **57**

**7. Rhagolwg** .......... **60**

**Atodiad A: Diolchiadau** .......... **61**

**Atodiad B: Aelodaeth y Bwrdd** .......... **63**

**Atodiad C: Canfyddiadau’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb.** .......... **67**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae ein cynrychiolwyr a etholir yn ddemocrataidd â rhan hynod bwysig yn ein bywydau. Rydym yn ymddiried yn ein cynrychiolwyr i wneud penderfyniadau ar ein rhan sy'n llywio'r byd o'n cwmpas, nawr ac yn y dyfodol, ac sy'n pennu'r rheolau y mae'n rhaid i ni eu dilyn yn ein bywydau. Yn ystod cyfnod anodd fel sydd gennym ar hyn o bryd, rydym yn dibynnu arnynt i wneud y dewisiadau anodd sydd eu hangen er mwyn cefnogi eu cymunedau.

Cyfrifoldeb y Bwrdd Taliadau yw sicrhau bod y gwleidyddion a etholir i’r Senedd yn cael eu talu a'u cefnogi'n ddigonol i wneud y gwaith pwysig hwn yn effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi adolygiad y Bwrdd o'i Benderfyniad ynghylch y tâl a'r cymorth a fydd ar gael i Aelodau o'r Senedd yn 2021-2026. Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod 2019-2020.

Ar 6 Mai 2020, newidiodd enw’r Cynulliad i’r Senedd, gan adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol Cymru.

Mae'r amgylchedd cyfansoddiadol, economaidd a chymdeithasol y mae'r Senedd[1] yn gwneud ei gwaith ynddo wedi newid yn ystod y Bumed Senedd ac mae’n parhau i newid yn gyflym. Mae’n rhaid cefnogi’r Aelodau’n briodol er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol yn y dirwedd hon sy'n datblygu'n gyflym.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bwrdd wedi paratoi ei Benderfyniad ar gyfer 2021-26. Nid cyfrifoldeb y Bwrdd yw mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg capasiti yn y Senedd na dadlau dros ragor o Aelodau. Ond ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod yr Aelodau bob amser â’r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol, o gofio gwerth am arian.

Rydym wedi bod yn arbennig o ofalus yn y Penderfyniad hwn i geisio denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol i sefyll etholiad. Mae darpariaethau newydd wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer 2021-26 i ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai y mae arnynt ei angen, megis Aelodau â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai sydd ar absenoldeb rhiant.

---

[1] Ar 6 Mai, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.

Er mai pleidiau gwleidyddol a'r etholwyr sy'n pennu amrywiaeth yn aelodaeth y Senedd yn y pen draw, drwy'r ymgeiswyr a enwebir ac a etholir wedi hynny, nod y Penderfyniad hwn yw sicrhau nad oes neb yn teimlo na chaiff sefyll etholiad i'r Senedd.

Nod y Penderfyniad yw darparu'r adnoddau sy'n gwbl angenrheidiol er mwyn helpu’r Aelodau i ymgymryd â’u dyletswyddau, wrth sicrhau gwerth am arian i’r trethdalwr drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau reoli eu hadnoddau’n effeithiol. Wrth ddarparu eglurder ynghylch y tâl a'r cymorth a fydd ar gael i Aelodau o'r Senedd nesaf, a threfniadau ariannol tryloyw, bydd y Penderfyniad hwn yn sicrhau y gellir dwyn yr Aelodau i gyfrif am eu hawliadau am ad-daliad o gostau.

Mae'r cyfnod y cynhaliwyd yr adolygiad hwn ynddo wedi bod yn heriol ar adegau. Yn benodol, bu angen i'r Bwrdd weithredu'n gyflym i sicrhau bod yr Aelodau a'u staff yn gallu parhau i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol yn ystod cyfyngiadau symud presennol Covid-19, er enghraifft drwy ganiatáu ar gyfer gwariant ar adnoddau ychwanegol sydd eu hangen. Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelodau ar y Bwrdd am eu hymrwymiad a'u cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ar ran y Bwrdd, diolch i bawb sydd wedi helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r Penderfyniad hwn drwy gyfrannu i’r adolygiad.

**Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC, Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

# 1. Crynodeb gweithredol

## Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o adolygiad y Bwrdd o'i Benderfyniad ar gyfer Senedd 2021-26.

**1.1.** Sefydlwyd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[2] yn 2010 i ddarparu gwrthrychedd a thryloywder i'r broses o benderfynu'r tâl a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn ymgynghori â'r Aelodau, eu staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gadarnhau'r cymorth sydd ei angen ar Aelodau er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau a lefel deg o dâl am y gwaith y mae'r Aelodau'n ei wneud. Ar sail ymgynghoriad o'r fath, ac o ystyried yr amgylchiadau cymdeithasol, cyfansoddiadol ac economaidd presennol yng Nghymru, mae'r Bwrdd yn penderfynu ar y tâl a'r cymorth a fydd ar gael i'r Aelodau ac yn cyhoeddi dogfen o'r enw y Penderfyniad i roi manylion am y tâl a'r cymorth sydd ar gael. Mae Penderfyniad newydd ar gyfer pob tymor Senedd pum mlynedd newydd yn cael ei gyhoeddi a'i adolygu'n flynyddol.

**1.2.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer tymor nesaf y Senedd, h.y. 2021-2026. Cyhoeddwyd y Penderfyniad ar gyfer 2021-2026 tua blwyddyn cyn etholiad nesaf y Senedd, i'w gynnal ym mis Mai 2021 er mwyn rhoi eglurder ar y tâl a'r cymorth a fydd ar gael i'r rhai sy'n ystyried sefyll etholiad i'r Senedd os cânt eu hethol yn Aelodau o'r Senedd.

**1.3.** Dechreuodd y Bwrdd ystyried y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd gyda thrafodaethau manwl â'r Aelodau, eu staff, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill ynghylch digonolrwydd y tâl a'r cymorth a oedd ar gael ar y pryd, gyda'r bwriad o nodi newidiadau posibl sydd eu hangen i'r Penderfyniad.

**1.4.** Rhan o ddiben statudol y Bwrdd yw gwneud penderfyniadau sy'n denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol. O gofio hyn, comisiynodd y Bwrdd ymchwil academaidd er mwyn deall yn well y rhwystrau i sefyll etholiad a wynebir gan grwpiau penodol a sut y gellid dileu neu leihau rhwystrau o'r fath.

**1.5.** Yna, lansiodd y Bwrdd adolygiad tair rhan o'r Penderfyniad i gasglu barn rhanddeiliaid am rannau penodol o'r Penderfyniad. Ar sail y gwaith hwn, gwnaeth y Bwrdd newidiadau i'r

[2] Wedi'i sefydlu fel Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, newidiodd enw'r Bwrdd i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar 6 Mai 2020, o ganlyniad i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd.

Penderfyniad a ddaeth i rym yn 2019-2020 a 2020-2021, a datblygodd gynigion hefyd ar gyfer newidiadau a fyddai’n dod i rym yn y Senedd newydd yn dilyn yr etholiad nesaf ym mis Mai 2021. Daeth yr adolygiad i ben gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer y pecyn cyfan o newidiadau i’r Penderfyniad ar gyfer tymor nesaf y Senedd, a gynhaliwyd rhwng 5 Chwefror a 24 Mawrth 2020. Roedd cynigion o'r fath hefyd yn destun asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gomisiynwyd gan y Bwrdd.

**1.6.** Cynnig allweddol ar gyfer y Chweched Senedd oedd cadw'r cyflogau a delir i’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ar yr un lefelau â’r rhai a ddarparwyd yn ystod y Bumed Senedd. O ystyried ffactorau fel codiadau cyflog yn ystod y Bumed Senedd, y cyd-destun economaidd yng Nghymru a'r newidiadau posibl i gyfrifoldebau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, roedd y Bwrdd o’r farn nad oedd gwerth mewn ailwerthuso'r pecyn tâl ar hyn o bryd.

**1.7.** Yn unol â'i ddiben strategol, ac ar sail yr ymchwil a gomisiynwyd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynigiodd y Bwrdd hefyd gynnwys pennod newydd yn y Penderfyniad i ddarparu cymorth ychwanegol i’r Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, at ddibenion cysylltiedig ag anabledd, ac at ddibenion yr Aelodau ar absenoldeb rhiant. Diben darpariaethau newydd o'r fath yw helpu i ddileu neu leihau rhwystrau i swydd etholedig y mae rhai grwpiau’n eu hwynebu.

**1.8.** Cyhoeddwyd nifer o gynigion eraill hefyd i ymgynghori arnynt. Cafodd y Bwrdd 12 ymateb i’r ymgynghoriad, gan aelodau o’r cyhoedd, rhanddeiliaid, Aelodau unigol o’r Senedd, pleidiau gwleidyddol a chyrff yn y Senedd, h.y. Comisiwn y Senedd a’r Pwyllgor Busnes. Trafodwyd y rhain ochr yn ochr â chanfyddiadau'r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gomisiynwyd, i helpu i lywio penderfyniadau'r Bwrdd ar newidiadau i'r Penderfyniad a fyddai’n dod i rym ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2021.

**1.9.** Yn gyffredinol, cafodd cynigion y Bwrdd eu croesawu, gan gynnwys y cynnig i gynnal cyflogau’r Aelodau ar yr un lefel. Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cymorth ychwanegol a gynigiwyd i’r Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, at ddibenion cysylltiedig ag anabledd ac i’r Aelodau ar absenoldeb rhiant. Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau i'r darpariaethau newydd hyn, gan gynnwys gwella rhai o'r mathau o gymorth ychwanegol a gynigir.

**1.10.** Ar ôl trafod y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynigion a nodwyd uchod ar gyflogau a chymorth ychwanegol i'r Aelodau, gyda rhai newidiadau’n adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd. Er enghraifft, cynigiodd y Bwrdd lwfans gofal newydd y gallai’r Aelodau ei ddefnyddio i helpu i gyfrannu at gostau gofalu am blant neu oedolion sy'n aelodau o’r teulu. Yn sgil yr ymgynghoriad a'r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb,

penderfynodd y Bwrdd na ddylid cyfyngu’r defnydd o’r lwfans hwn i gostau gofalu am aelodau teulu yn unig.

**1.11.** Mae manylion llawn canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r newidiadau i'r Penderfyniad a dderbyniodd y Bwrdd wedi hynny ym Mhennod 5 o’r adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd Penderfyniad terfynol y Bwrdd ar gyfer 2021-26 yn costio £16.87 miliwn y flwyddyn, cynnydd o tua 4.3 y cant (£700,000) o gymharu â 2020-21 (£16.17 miliwn).

**1.12.** Nododd y Bwrdd hefyd nifer o newidiadau i'r Penderfyniad y bydd angen eu trafod ymhellach gan y Bwrdd Taliadau nesaf a ddisgwylir ym mis Medi 2020.

# 2. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae'r adran hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

## Swyddogaethau'r Bwrdd

**2.1.** Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i’r Aelodau er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol i wneud eu gwaith yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006** (y Ddeddf) ac ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur).

**2.2.** Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i’r Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd;
- darparu adnoddau digonol i’r Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau;
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

**2.3.** Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn barhaus. Hyd yn hyn, mae'r Bwrdd wedi arfer y ddyletswydd hon drwy gynnal adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, yn ogystal ag adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer pob Senedd newydd.

**2.4.** Wrth ymgymryd â’i swyddogaethau, gan gynnwys paratoi Penderfyniad, mae dyletswydd ar y Bwrdd, oni bai ei fod o’r farn ei bod yn amhriodol gwneud hynny, i ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd, eu staff, undebau llafur a phersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

**2.5.** Yn unol â'r Mesur, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un Penderfyniad sy'n ymwneud â chyflogau Aelodau o'r Senedd ac un sy'n ymwneud â chyflogau'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, ar gyfer pob tymor Senedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

## Egwyddorion arweiniol y Bwrdd

**2.6.** Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Bwrdd **ei strategaeth** ar gyfer tymor presennol y Senedd. Mae'r strategaeth yn nodi’r egwyddorion a ganlyn, sydd wedi'u diffinio'n glir, i fod yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai'r cymorth ariannol a'r tâl a roddir i’r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

**2.7.** Pwysleisiodd y strategaeth ymrwymiad y Bwrdd y byddai ei waith yn cael ei lywio gan randdeiliaid ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gadw annibyniaeth barn a phenderfyniadau sy'n ofynnol yn ôl y Mesur:

> Yn y strategaeth hon, rydym yn rhoi pwyslais o'r newydd ar ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn gyson ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff i egluro syniadau'r Bwrdd a chael adborth gan y rhai yr effeithir yn fwyaf uniongyrchol arnynt. Byddwn hefyd yn datblygu perthnasau cynhyrchiol â rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio technegau mwy arloesol o gasglu tystiolaeth. Bydd y Bwrdd yn cynnal ei ddull o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ac yn parhau i edrych ar enghreifftiau o arfer da ac arloesi rhyngwladol.

**2.8.** Yn y meddylfryd hwn y cynhaliodd y Bwrdd ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Senedd yn 2021-2026. Cynigiodd yr adolygiad gyfle i’r Bwrdd drafod rhagor o gamau y gellid eu cymryd i geisio denu ystod mor amrywiol â phosibl o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ar gyfer etholiadau’r Senedd, yn unol â’r diben statudol a nodir ym Mharagraff 1.4 uchod.

# 3. Datblygiad y Penderfyniad

Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae Penderfyniad y Bwrdd wedi datblygu gyda threigl amser, ers y cyhoeddiad cyntaf yn 2011.

## Gwneud penderfyniadau cyn y Bumed Senedd

**3.1.** Yn y Cynulliad Cyntaf, yr Ail a’r Trydydd, penderfynwyd cyflogau, lwfansau a phensiynau’r Aelodau gan y Cynulliad fel y darperir yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Cyn Penderfyniad cyntaf y Cynulliad ar y cyflogau sy’n daladwy i'w Aelodau, cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd penderfynu ar lefelau cyflog Aelodau'r Cynulliad.

**3.2.** Sefydlwyd **Panel Adolygu Annibynnol** gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Awst 2008 i edrych ar bob agwedd ar gymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Yn dilyn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, a oedd tua adeg y sgandal treuliau yn Senedd y DU, derbyniodd y Cynulliad ei argymhelliad na ddylai cyflogau ei Aelodau na'r lwfansau sydd ar gael iddynt gael eu penderfynu gan yr Aelodau eu hunain mwyach. Pasiwyd **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** er mwyn darparu annibyniaeth a gwrthrychedd i benderfynu ar gyflogau a lwfansau’r Aelodau.

**3.3.** Sefydlodd y Mesur Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[3] sy'n gyfrifol am benderfynu ar gyflogau a lwfansau’r Aelodau. Mae'r Mesur yn darparu i'r Bwrdd gael ei benodi gan Gomisiwn y Senedd ond ymgymryd â’i swyddogaethau heb gyfarwyddyd gan y Senedd na Chomisiwn y Senedd.

**3.4.** Cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad cyntaf ym mis Mawrth 2011, gan ddisodli'r Penderfyniadau a wnaed yn flaenorol gan y Cynulliad ei hun.

**3.5.** Mae'r Penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd yn 2011 ac wedi hynny wedi datblygu o'r Penderfyniad cyntaf a wnaed gan y Cynulliad. Mae'r lwfansau y darparwyd ar eu cyfer ers 1998 yn parhau i fod yr un peth, fwy neu lai, heddiw e.e. lwfansau costau swyddfa, costau teithio ac

[3] Wedi'i sefydlu fel Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, newidiodd enw'r Bwrdd i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar 6 Mai 2020, o ganlyniad i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd.

ati, er bod y symiau o arian y caiff yr Aelodau eu hawlio wedi newid gyda threigl amser i adlewyrchu anghenion a rôl newidiol yr Aelodau.

**3.6.** Mae Penderfyniadau'r Bwrdd ers 2011 wedi adlewyrchu'r amgylchiadau ariannol, cymdeithasol ac economaidd ar y pryd. Er enghraifft, cafodd cyflogau'r Aelodau eu rhewi o 2010 tan 2014-2015, gan adlewyrchu'r heriau economaidd roedd y DU yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw.

**3.7.** Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016), cynhaliodd y Bwrdd blaenorol adolygiad manwl o'r Penderfyniad, i lywio'r gwaith o baratoi Penderfyniad newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad. Cyhoeddwyd y fersiwn derfynol o'r **Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad** ym mis Mai 2016 gydag **adroddiad**. Er nad oedd y penderfyniad i gynyddu cyflogau'r Aelodau'n benderfyniad poblogaidd, penderfynwyd ei fod yn adlewyrchu pwysau'r cyfrifoldebau ychwanegol a oedd gan yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad o'u cymharu â'r Cynulliadau blaenorol. Hefyd, cyflwynodd y Bwrdd blaenorol gynllun pensiwn newydd i'r Aelodau a ostyngodd y gost i'r trethdalwr a chynyddu cyfraniadau'r Aelodau, gan ei wneud yn fwy addas at y diben yn y dyfodol.

## Newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad yn ystod y Bumed Senedd

**3.8.** Cynhaliodd y Bwrdd newydd, a benodwyd yn 2015, ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi y flwyddyn honno a chyhoeddodd ei **strategaeth** ym mis Ionawr 2017. Un o'r amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth oedd "paratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru". Mae Pennod 3 o'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaeth y Bwrdd i baratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

**3.9.** Ymrwymodd y Bwrdd hefyd, yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, i sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae'r paragraffau isod yn nodi'r prif newidiadau i'r Penderfyniad a wnaed yn ystod y Bumed Senedd sydd wedi helpu i lywio'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

Cymorth staffio i'r Aelodau a phleidiau gwleidyddol

**3.10.** Mae'r Penderfyniad yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau unigol a phleidiau gwleidyddol i dalu costau cyflogi staff, a rheolau sy'n ymwneud â defnyddio'r lwfansau hyn, gan gynnwys y cyflogau y mae'n rhaid eu talu i'r staff cymorth.

**3.11.** Cynhaliodd y Bwrdd hefyd adolygiad ehangach o'r cymorth staffio sydd ar gael i Aelodau unigol a phleidiau gwleidyddol. Dechreuodd yr adolygiad yn 2017 ac roedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- pa mor ddigonol yw lefel y cymorth a roddir i'r Aelodau;
- pa mor hyblyg a rhagnodol yw’r system cymorth bresennol i’r Aelodau;
- pa mor addas yw telerau ac amodau presennol y staff cymorth.

**3.12.** Roedd yr adolygiad yn cynnwys casglu barn yr Aelodau a'u staff am y materion hyn a chymharu â’r cymorth staffio a ddarperir i Aelodau deddfwrfeydd eraill y DU.

**3.13.** Ar sail y gwaith hwn, datblygodd y Bwrdd gynigion yr ymgynghorodd arnynt. Dyma rai o’r prif newidiadau i'r Penderfyniad, neu ddogfennau polisi sy’n ymwneud â’r Penderfyniad, a dderbyniwyd yn sgil yr ymgynghoriad hwn:

- Ym mis Ionawr 2019, penderfynodd y Bwrdd addasu cyflogau staff cymorth yn awtomatig bob blwyddyn gan ddefnyddio’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Darperir ar gyfer y dull mynegeio hwn ym mharagraff 7.3.1 o'r Penderfyniad. Defnyddir yr un dull mynegeio i addasu cyflogau’r Aelodau’n flynyddol. Yn flaenorol, roedd cyflogau’r staff cymorth yn cael eu haddasu â llaw pan fyddai hynny’n briodol ym marn y Bwrdd, (a oedd yn defnyddio'r un mynegai), ac yn cael eu haddasu hefyd yn ôl symiau. O ganlyniad i'r newid hwn, cynyddodd cyflogau’r staff cymorth 1.2 y cant yn awtomatig ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 gyda chynnydd canlyniadol i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol o £950,480 i £961,890.

- Cyllidebu Lwfans Staffio’r Aelodau ar bwyntiau cyflog gwirioneddol - yn flaenorol, cyfrifwyd lwfansau costau staffio ar yr “Uchafswm Cost Posibl”, pan fyddai costau aelodau staff yn cael eu cyllidebu ar uchafswm y raddfa gyflog ar gyfer pob aelod o staff, yn hytrach na chostau gwirioneddol (h.y. y pwyntiau gwirioneddol ar y raddfa gyflog y cyflogir staff arnynt). Sicrhaodd hyn fod gan yr Aelodau a phleidiau gwleidyddol gyllid digonol yn eu lwfansau i ymgymryd â’u rhwymedigaethau cyflog dros nifer o flynyddoedd. Yna, roedd y pleidiau gwleidyddol yn gallu defnyddio unrhyw danwariant yn eu cyllideb cyflogau staff i dalu costau staffio eraill, megis staff a gyflogir ar gontractau cyfnod penodol, lleoliadau gwaith ac interniaethau, costau teithio a chostau eraill sy’n gysylltiedig â’r swyddfa. Yn dilyn ei adolygiad o’r cymorth staffio yn 2017-2018, newidiodd y Bwrdd ei Benderfyniad ym mis Ebrill 2019 fel bod

cyllidebau cyflogau staff yn cael eu cyfrif ar sail costau cyflogau gwirioneddol, a all fod o fudd i’r Aelodau wrth ryddhau tanwariant ychwanegol ar gyfer diwallu anghenion cymorth eraill.

- Cyhoeddi cyfanswm gwariant blynyddol pob Aelod a phlaid wleidyddol ar staff.
- Dileu’r cyfyngiad 111 o oriau ar staff cymorth Aelod a gyflogir yn barhaol, h.y. erbyn hyn, caiff gyflogi mwy na thri aelod staff cyfwerth ag amser llawn ar yr amod y gall dalu'r costau o’i gyllideb staffio.
- Cynyddu hyblygrwydd trosglwyddo rhwng cyllidebau gwahanol, ond dileu'r ddarpariaeth yn y Penderfyniad sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo arian o Lwfans Staffio'r Aelod i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.
- Mae contractau cyfnod penodol at ddibenion darparu gwasanaeth cyflenwi ar gyfer absenoldeb mamolaeth i'w gosod ar 12 mis.
- Cyflwyno diwrnodau braint ar gyfer staff cymorth.
- Cyflwyno polisi absenoldeb tosturiol newydd ar gyfer staff cymorth.

**3.14.** Fel rhan o'r adolygiad hwn, ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gynigion sy’n ymwneud â’r Aelodau’n cyflogi aelodau teulu. Yn sgil yr ymgynghoriad, cytunodd y Bwrdd y dylid newid y Penderfyniad er mwyn peidio â chaniatáu ar gyfer recriwtio aelodau teulu o 1 Ebrill 2019. Gallai aelodau teulu a gyflogwyd gan Aelodau cyn y dyddiad hwn aros yn eu swydd nes diddymu'r Chweched Senedd (disgwylir i hynny fod ym mis Mai 2026).

<u>Adolygiad blynyddol o’r Penderfyniad</u>

**3.15.** Yn ogystal ag adolygu'r Penderfyniad ar gyfer pob tymor Senedd newydd, mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad ar gyfer pob blwyddyn newydd yn ystod tymor Senedd. Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys ymgynghori â’r Aelodau, pleidiau gwleidyddol a staff cymorth ar newidiadau a gynigiwyd i'r Penderfyniad.

**3.16.** Mae'r Penderfyniad yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i’r Aelodau dalu am gostau sefydlu a chynnal swyddfeydd yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau. Ar gyfer 2018-2019, penderfynodd y Bwrdd gynyddu’r lwfans hwn 3 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gyda 2 y cant ychwanegol i dalu'r costau ychwanegol y disgwylir i'r Aelodau eu hysgwyddo o'u cyllideb, megis y feddalwedd gwaith achos a gofynion estynedig y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

**3.17.** Mae'r Penderfyniad yn pennu terfynau ar faint o arian y caiff yr Aelodau ei hawlio am gostau llety preswyl, a’r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio'r lwfans hwn. Ar sail costau rhentu llety uwch yn ardal Bae Caerdydd, rhoddwyd lwfansau uwch i’r Aelodau sy'n byw yn yr ardal allanol (h.y. yr ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru) ac ardal ryngol (h.y. etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe) ar gyfer 2018 a 2019 yn y drefn honno.

**3.18.** Yn ystod 2020, ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad a fyddai'n dod i rym yn 2020-2021. Yn sgil yr ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd roi'r newidiadau a ganlyn ar waith:

- Cynyddu'r Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau ardal allanol 1.7 y cant i adlewyrchu cost gynyddol llety.
- Cynyddu’r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 3.86 y cant i adlewyrchu codiadau cyflog. Dyma'r swm cyffredinol y mae gan bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd hawl iddo er mwyn cyflogi staff.
- Dileu cyfyngiadau ar allu'r Aelodau i recriwtio ar gontractau cyfnod penodol drwy ddiwygio'r Polisi Recriwtio. Byddai recriwtio o'r fath yn destun terfyn 18 mis yn hytrach na'r terfyn chwe mis presennol a, thrwy hynny, ddarparu rhagor o hyblygrwydd i'r Aelodau ar sut y gellir gwario eu lwfansau staffio. Bydd y Polisi Recriwtio’n parhau i nodi y bydd yr holl benodiadau sy'n hwy na chwe mis o ran hyd yn ddarostyngedig i broses recriwtio agored a theg.

**3.19.** Cynigiodd y Bwrdd hefyd, am resymau gwerth am arian, ei bod yn rhesymol na ddylai’r Aelodau gael hawlio costau yn ôl o ganlyniad i newid enw’r Cynulliad i Senedd Cymru, megis costau diweddaru arwyddion swyddfa, cyn etholiad nesaf y Senedd (a ddisgwylir ym mis Mai 2021). Nid oedd hwn yn fater a oedd yn gofyn newidiadau i eiriad y Penderfyniad.

# 4. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-26 – cefndir

Mae'r adran hon yn esbonio cefndir yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Senedd nesaf yn 2021-2026 a sut y cynhaliwyd yr adolygiad

## Cyd-destun

**4.1.** Un o egwyddorion arweiniol y Bwrdd yw bod yn rhaid i'w benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun Cymru.

**4.2.** Cynhaliwyd adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad yn ystod cyfnod o gyfnewidioldeb ac ansicrwydd gwleidyddol sylweddol yng Nghymru a'r DU. Roedd Brexit yn dominyddu'r sgwrs wleidyddol a threuliwyd cryn dipyn o amser y Cynulliad yn trafod ac yn paratoi ar gyfer effeithiau economaidd a chymdeithasol Brexit ar Gymru. Trafodaeth fawr arall i'r Cynulliad oedd effeithiau cyfansoddiadol Brexit ei hun, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai pwerau'r Cynulliad gynyddu yn dilyn Brexit.

**4.3.** Adlewyrchwyd ansicrwydd o'r fath ynghylch dyfodol aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yng nghyfansoddiad newidiol y Senedd. Yn ystod y Bumed Senedd, croesodd mwy o'r Aelodau lawr y Siambr i ymuno â phleidiau gwahanol, neu i eistedd fel Aelodau annibynnol, nag yn ystod unrhyw gyfnod arall.

**4.4.** Cynhaliwyd adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn erbyn cefndir o drafodaethau parhaus ar ddiwygio cyfansoddiad Cymru, gan gynnwys cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau o'r Senedd. Mae trafodaethau o'r fath yn parhau ac mae'n parhau i fod yn aneglur a fydd y Senedd yn penderfynu cynyddu ei maint yn y dyfodol.

**4.5.** Er bod penderfyniadau'r Bwrdd yn ystod ei gyfnod yn y swydd wedi'u hysgogi gan ei egwyddorion arweiniol (gweler Paragraff 2.6), roedd y datblygiadau gwleidyddol ac economaidd sylweddol yn ystod y Bumed Senedd, yn enwedig y dirwedd gyfansoddiadol newidiol yng Nghymru a'r DU, â rhan bwysig wrth lywio penderfyniadau'r Bwrdd a'i Benderfyniad terfynol.

**4.6.** Roedd ymddangosiad Covid-19 yn dominyddu dechrau cyfnod yr adolygiad. Gwnaeth y Bwrdd benderfyniadau sy’n ymwneud â chymhwyso’r Penderfyniad presennol i helpu’r Aelodau i addasu a sicrhau cydnerthedd yn ystod y cyfnod heriol hwn, ac i sicrhau bod newidiadau i gyflogau’r Aelodau’n briodol i’r amgylchiadau. Yn ddi-os, bydd angen i’r Bwrdd adolygu’r Penderfyniad yn barhaus yn sgil datblygiadau sy’n ymwneud â Covid-19 am gryn amser eto.

**4.7.** Lluniwyd Penderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun presennol Cymru. Bydd angen ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y Chweched Senedd i adlewyrchu'r amgylchiadau cyfansoddiadol ac economaidd sy'n newid yn gyflym yng Nghymru.

## Diben

**4.8.** Ym mis Rhagfyr 2018, cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer adolygiad llawn o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

- pa mor addas yw lefel y cymorth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- gonestrwydd, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

**4.9.** Er mwyn darparu eglurder i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 ar y tâl a’r cymorth a fyddai ar gael iddynt pe baent yn cael eu hethol, ymrwymodd y Bwrdd i gyhoeddi’r Penderfyniad diwygiedig flwyddyn cyn yr etholiad hwnnw.

## Y broses adolygu

**4.10.** Yn ystod y Bumed Senedd, mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â’r Aelodau, eu staff, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill ar agweddau penodol ar y Penderfyniad. Cynhaliwyd ymgysylltiad o'r fath ar draws Cymru er mwyn ystyried barn yr holl Aelodau a staff, ni waeth beth yw eu lleoliad, a hefyd i sicrhau ymwybyddiaeth a thrafodaeth o faterion a all fod yn benodol i ardaloedd daearyddol penodol, neu'n fwy cyffredin mewn ardaloedd penodol.

**4.11.** Er mwyn llywio’r adolygiad o’r Penderfyniad, comisiynwyd **Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd** a'r **Ysgol Proffesiynau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain** i nodi’r **rhwystrau a’r cymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Diben y gwaith hwn oedd helpu'r Bwrdd i ddeall rhai o'r rhwystrau i

sefyll etholiad i'r Senedd, gan gynnwys y rhai y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu, er mwyn dileu rhwystrau o'r fath neu roi mesurau ar waith i'w lliniaru.

**4.12.** Yna, penderfynodd y Bwrdd gynnal adolygiad tair rhan o'r Penderfyniad, gyda phob rhan yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y Penderfyniad.

- Rhan un: Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau;
- Rhan dau: Cymorth i’r Aelodau ac i Bleidiau Gwleidyddol;
- Rhan tri: Tâl Aelodau ac Aelodau'n gadael eu swyddi.

**4.13.** Roedd yr adolygiad tair rhan hwn yn cynnwys casglu rhagor o dystiolaeth gan yr Aelodau, eu staff, pleidiau gwleidyddol a chyrff y Senedd fel Comisiwn y Senedd ar y materion yr ymdrinnir â hwy ym mhob rhan o'r adolygiad.

**4.14.** Er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau'n dryloyw, yn atebol ac yn adlewyrchu sefyllfa’r farchnad, trafododd y Bwrdd dystiolaeth megis:

- sut y mae’r Aelodau’n defnyddio'r lwfansau amrywiol hyd yn hyn yn ystod y Pumed Cynulliad;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU;
- cymariaethau â mesurau amrywiol eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, megis y cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig eraill.

**4.15.** Ar ôl datblygu cynigion ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd, ymgynghorodd y Bwrdd â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar newidiadau a awgrymwyd i'r Penderfyniad mewn perthynas â phob rhan o'r adolygiad, yn eu tro. Cafodd ei benderfyniadau eu cyfleu i'r Aelodau a'u staff drwy lythyr ar ôl cwblhau’r rhannau amrywiol o'r adolygiad.

**4.16.** Ar sail ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid, y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd, ac yn sgil yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y newidiadau a gynigiwyd i'r Penderfyniad, penderfynodd y Bwrdd ar nifer o newidiadau a gynigiwyd i'r Penderfyniad a fyddai'n dod i rym ddechrau'r Chweched Senedd. Arweiniodd hyn at baratoi Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd.

## Ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft llawn

**4.17.** Ar 5 Chwefror 2020, cyhoeddodd y Bwrdd Benderfyniad drafft ar gyfer ymgynghoriad a oedd yn adlewyrchu'r holl newidiadau a dderbyniodd y Bwrdd yn sgil yr adolygiad tair rhan. Cyhoeddwyd y Penderfyniad drafft ar **wefan y Bwrdd**.

**4.18.** Cyhoeddwyd dwy fersiwn o'r Penderfyniad drafft. Roedd **un fersiwn** yn dangos newidiadau wedi’u marcio i'r Penderfyniad a gynigiwyd gan y Bwrdd, ar gyfer 2021-2026, er mwyn egluro sut y byddai'r Penderfyniad hwnnw'n wahanol i'r Penderfyniad ar gyfer 2019-2020. Roedd y llall yn **fersiwn 'lân'** o'r Penderfyniad heb newidiadau wedi'u marcio.

**4.19.** Ochr yn ochr â'r Penderfyniad drafft, ac er mwyn hwyluso dealltwriaeth o'r ddogfen honno, cyhoeddodd y Bwrdd **ddogfen ymgynghori** i esbonio’r rhesymeg dros y newidiadau a gynigiwyd i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

**4.20.** Yn ogystal, cyhoeddodd y Bwrdd ddatganiad i'r wasg yn tynnu sylw at yr ymgynghoriad, i godi ymwybyddiaeth a diddordeb. Cyhoeddwyd erthyglau ac eitemau newyddion amrywiol yn y cyfryngau print a darlledu yng Nghymru i dynnu sylw at yr ymgynghoriad a'r cynigion ynddo.

**4.21.** Hefyd, cyhoeddodd y Bwrdd lythyr at Aelodau'r Cynulliad yn ogystal ag ystod o randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a gwahodd ymatebion.

**4.22.** Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyfarfu aelodau'r Bwrdd ar wahân â grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a’u staff cymorth. Trafododd y Bwrdd farn a fynegwyd ar ran yr Aelodau a'u staff yn ystod y cyfarfodydd hyn ochr yn ochr â'r ymatebion ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.

**4.23.** Fel gyda’r ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd, ac fel yr amlinellir yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, un o flaenoriaethau'r Bwrdd fu datblygu dealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag sefyll yn etholiadau'r Senedd. Er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Bwrdd wedi gofyn yn rheolaidd am farn ynghylch a allai ei gynigion effeithio ar bobl sy'n nodi bod ganddynt nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2020.

**4.24.** Er mwyn helpu i lywio dealltwriaeth y Bwrdd o'r goblygiadau sy'n deillio o'r Penderfyniad drafft i unigolion sy'n nodi bod ganddynt nodweddion gwarchodedig, comisiynodd y Bwrdd Diverse Cymru, elusen o Gymru sy'n arbenigo ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, i gynnal asesiad o effaith y Penderfyniad drafft ar gydraddoldeb. Gofynnwyd iddi nodi darpariaethau yn y Penderfyniad drafft a allai gael effaith negyddol ar bobl o grwpiau penodol neu sydd â nodweddion penodol, awgrymu sut y gellid diwygio darpariaethau o'r fath i osgoi neu leihau

effeithiau negyddol o'r fath, a sut y gellid diwygio darpariaethau er mwyn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar gydraddoldebau ac amrywiaeth.

**4.25.** Daeth 12 o ymatebion ysgrifenedig i law yn sgil yr ymgynghoriad. Cafwyd pob un drwy e-bost. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys dau aelod o'r cyhoedd, Aelodau unigol, grwpiau plaid wleidyddol, cyrff yn y Senedd a sefydliadau allanol. Dangosir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

**4.26.** Trafododd y Bwrdd yr holl sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad a chan Diverse Cymru a gyfrannodd at asesiad y Bwrdd o'r effaith ar gydraddoldeb (gweler Atodiad C). Pan oedd angen, gofynnodd y Bwrdd am ragor o gyngor polisi a chyfreithiol i helpu i lywio ei benderfyniadau ar newidiadau i'w gwneud i'r Penderfyniad mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**4.27.** Ymdriniwyd â data personol a roddodd cyfranwyr i'r adolygiad yn unol â pholisi preifatrwydd y Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data a gwybodaeth.

**4.28.** Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi cynigion y Bwrdd ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad a fydd yn dod i rym yn y Chweched Senedd, barn a fynegwyd am y cynigion hynny, a phenderfyniadau terfynol y Bwrdd ar newidiadau i'r Penderfyniad.

# 5. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-2026 – canlyniadau

Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb fesul pennod o benderfyniadau'r Bwrdd ar y newidiadau i'r Penderfyniad, a ddaw i rym yn 2021, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny: Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r Penderfyniad ar sail canfyddiadau'r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd. Nodir canfyddiadau llawn yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn Atodiad C.

## Pennod 1: Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol

**5.1.** Mae Pennod 1 o’r Penderfyniad yn nodi'r egwyddorion y disgwylir i’r Aelodau o'r Senedd eu dilyn wrth hawlio a chael tâl a chymorth, yn ogystal ag egwyddorion sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd wrth weinyddu hawliadau gan yr Aelodau am dâl a chymorth o'r fath. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u seilio ar safonau sefydledig mewn bywyd cyhoeddus ac maent yn adlewyrchu'r disgwyliadau ar yr Aelodau a nodir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd. Mae hefyd yn cynnwys egwyddorion arweiniol y Bwrdd sy'n darparu sail ei holl benderfyniadau ar y tâl a'r cymorth y mae gan yr Aelodau hawl iddynt.

**5.2.** Mae Pennod un hefyd yn esbonio rôl Comisiwn y Senedd wrth weinyddu trefniadau tâl yr Aelodau a'r broses i’r Aelodau apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn.

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.3.** Cynigiodd y Bwrdd ddiwygio’r egwyddorion cymorth ariannol (Paragraff 1.3) yn y bennod hon i ddiweddaru’r gweithdrefnau a’r arferion a fabwysiadwyd yn ystod y Pumed Cynulliad, yn ogystal ag egluro’r hyn y mae rhai o'r egwyddorion yn ei olygu.

**5.4.** Cynigiwyd dau baragraff newydd (Paragraffau 1.3A ac 1.3B) er mwyn egluro'r rolau gwahanol sydd gan y Bwrdd a Chomisiwn y Senedd o ran y Penderfyniad. Mae Paragraff 1.3A yn amlinellu'r egwyddorion sy'n llywio gwaith y Bwrdd. Roedd y Bwrdd yn teimlo y byddai cynnwys yr egwyddorion hyn yn helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth pobl o broses y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau. Cynigiwyd Paragraff 1.3B er mwyn egluro swyddogaethau Comisiwn y Senedd o ran y Penderfyniad. Mae'n nodi mai Comisiwn y Senedd sy’n gyfrifol am ddarparu'r cyllid sydd ei angen a'i oruchwylio, a gweinyddu gwariant. Mae’r Paragraff hefyd yn pwysleisio rôl y Swyddog Cyfrifyddu a’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau wrth ddehongli’r Penderfyniad a chynnig cymorth i’r Aelodau wneud hawliadau cymwys.

**5.5.** Cynigiodd y Bwrdd hefyd ddileu paragraffau sy’n ymwneud â 'chydraddoldebau' o Bennod 1, gan gynnwys manylion y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad, a rhoi’r cynnwys hwn mewn pennod newydd (gweler y manylion ar Bennod 3A). Drwy gydol ei waith, mae'r Bwrdd wedi ceisio lleihau rhwystrau a allai atal unrhyw un, pe bai'n cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd, rhag ymgymryd â’i ddyletswyddau a chyflawni ei gyfrifoldebau, neu a allai atal pobl rhag sefyll etholiad. O ganlyniad, cynigiodd y Bwrdd y dylid nodi'n gliriach ac yn amlycach yn y Penderfyniad y cymorth sydd ar gael.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.6.** Ni wnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau ar y newidiadau a gynigiwyd i Bennod 1.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.7.** Yn yr asesiad o effaith y Penderfyniad drafft ar gyfer 2021-2026 ar gydraddoldeb, awgrymodd Diverse Cymru y dylai egwyddorion arweiniol y Bwrdd ystyried nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol unigolion, fel bod penderfyniadau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r costau a rhwystrau ychwanegol y mae rhai pobl yn eu hwynebu. Penderfynodd y Bwrdd ddiwygio ei egwyddorion arweiniol i egluro bod yn rhaid i'r system cymorth ariannol i’r Aelodau fod yn ystyriol o nodweddion personol a/neu amgylchiadau'r Aelodau.

**5.8.** Awgrymodd Diverse Cymru hefyd egwyddor budd personol a amlinellir ym Mharagraff 1.3.5, sy'n nodi bod yn rhaid i’r Aelodau sicrhau nad yw hawliadau’n arwain at fudd personol amhriodol na’r canfyddiad y gallai budd o'r fath olygu na fyddai’r Aelodau’n hawlio treuliau dilys. Mae tîm Cymorth Busnes yr Aelodau’n rhoi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau ar ddilysrwydd hawliadau a wneir ac yn darparu rhaglen gynefino i'r holl Aelodau newydd er mwyn esbonio'r rheolau. Yn unol â hynny, a heb dystiolaeth bod yr Aelodau’n ymatal rhag gwneud hawliadau, nid oedd y Bwrdd yn teimlo bod angen newidiadau i'r Penderfyniad mewn cysylltiad â Pharagraff 1.3.5.

## Pennod 2: Rheolau cyflwyno hawliadau

**5.9.** Mae'r bennod hon o'r Penderfyniad yn nodi'r trefniadau i’r Aelodau wneud hawliadau am y treuliau a'r lwfansau y maent yn gymwys i'w cael, a'r rheolau sy'n ymwneud â gweithredu trefniadau o'r fath.

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.10.** Cynigiodd y Bwrdd newidiadau i Bennod 2 er mwyn darparu mwy o dryloywder ac eglurder i'r Aelodau a'r cyhoedd ar y rheolau sy’n ymwneud â hawliadau gan yr Aelodau.

**5.11.** Cynigiwyd Paragraff ychwanegol (2.1.2) i egluro sut y byddai dyraniad o’r Lwfans Cymorth Plaid Wleidyddol yn newid i adlewyrchu newidiadau i aelodaeth o’r Senedd, neu'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir gan ei Haelodau, rhwng etholiadau. Esboniodd y Paragraff 2.1.2 a gynigiwyd y byddai’r lwfans sydd ar gael i bob plaid yn cael ei ailgyfrifo ar sail pro-rata i adlewyrchu nifer yr Aelodau o’r Senedd ym mhob plaid, ar gyfer gweddill y flwyddyn pan fydd newid yn yr aelodaeth.

**5.12.** Hefyd, cynigiodd y Bwrdd newidiadau i eiriad Paragraffau 2.3.2 a 2.3.7 i egluro bod yn rhaid cyflwyno hawliadau o fewn amserlen y cytunwyd arni ac na chaiff yr Aelodau hawlio am ffioedd taliadau hwyr sy'n gysylltiedig â'u treuliau. Yn ogystal, cynigiodd y Bwrdd fod yn rhaid darparu tri dyfynbris ar gyfer eitemau sy'n costio £750 neu fwy, neu pan fyddai rhwymedigaethau dan gontract dros oes contract yn costio £750 neu fwy. Mae hyn yn ailadrodd y rheolau presennol mewn man arall yn y Penderfyniad a dylai sicrhau gwerth gwell am arian i'r trethdalwr.

**5.13.** Hefyd, cynigiodd y Bwrdd ddiwygio'r testun ym Mharagraff 2.4.1 sy’n ymwneud â threuliau eithriadol, drwy ddileu cyfeiriadau at anabledd neu gyfrifoldebau gofalu gan y cynigiwyd cynnwys darpariaethau newydd mewn perthynas â'r materion hyn mewn Pennod 3A newydd.

**5.14.** Cynigiwyd cynnwys testun ychwanegol ym Mharagraff 2.4.6A er mwyn egluro y gall fod yn ofynnol i’r Aelodau sy’n hawlio treuliau eithriadol roi tystiolaeth ychwanegol os yw eu hamgylchiadau wedi newid yn dilyn adolygiad blynyddol o'u hawliadau treuliau eithriadol.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.15.** Ni wnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau ar y newidiadau a gynigiwyd i Bennod 2.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.16.** Yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, cynigiodd Diverse Cymru eithriadau i'r rheol a nodir ym Mharagraff 2.3.8 bod yn rhaid i'r Aelodau gyflwyno hawliadau am daliad o fewn tri mis i ddiwedd y mis y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef. Awgrymodd y dylid derbyn hawliadau hwyr pan nad oedd modd osgoi'r oedi cyn gwneud yr hawliad, am resymau fel salwch, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu am blant.

**5.17.** Penderfynodd y Bwrdd beidio â gwneud y newid hwn i'r Penderfyniad. Mae geiriad Paragraff 2.3.8 yn darparu hyblygrwydd ar gyfer hawliadau hwyr ac, yn ymarferol, bydd tîm Cymorth Busnes yr Aelodau'n ystyried hawliadau treuliau hwyr pan fo'r rhesymau dros yr oedi'n ddilys. Barn y Bwrdd oedd y gall cynnwys rhestr o seiliau penodol dros dderbyn hawliadau hwyr gael ei ystyried yn anghywir fel rhestr gynhwysfawr ond, mewn gwirionedd, y gellid derbyn hawliadau hwyr am ystod eang o resymau.

## Pennod 3: Taliadau’r Aelodau

**5.18.** Mae Pennod 3 o'r Penderfyniad yn nodi'r cyflogau a'r pensiynau sy'n daladwy i’r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol sy'n daladwy i bob Aelod a'r cyflogau ychwanegol a delir i’r Aelodau sy'n dal swyddi penodol yn y Senedd, e.e. Gweinidogion. Mae Pennod 3 hefyd yn esbonio sut y mae cyflogau’r Aelodau'n cael eu haddasu'n flynyddol.

**5.19.** Mae adran 13 o’r Mesur yn darparu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad yn ystod pob tymor Senedd pum mlynedd ar gyflogau’r Aelodau, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru na'r Cwnsler Cyffredinol. Yn ôl adran 3 o'r Mesur, mae'n ofynnol i'r Bwrdd arfer ei swyddogaethau gyda'r bwriad o roi lefel o dâl i’r Aelodau:

- sy’n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni,
- nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a’r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i’r Senedd[4].

**5.20.** Caiff y cyflogau sy’n daladwy i’r Aelodau a deiliaid swyddi eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â’r newid yn enillion canolrifol gros swyddi gweithwyr amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, dros y 12 mis blaenorol (o fis Mawrth i fis Mawrth). Nodir y cyflogau sy'n daladwy yn 2020-21 isod.

**Cyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi (2020-2021)**[5]

| Cyflogau deiliaid swyddi | Cyflog sylfaenol 2020-21 | Cyflog ychwanegol 2020-21 | Cyfanswm cyflog 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | £67,649 | £80,334 | **£147,983** |
| Gweinidogion Cymru | £67,649 | £38,052 | **£105,701** |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £67,649 | £38,052 | **£105,701** |
| Dirprwy Weinidog | £67,649 | £22,197 | **£89,846** |

[4] Adrannau 3(2)(a)(i) ac (ii).

[5] Mae'r cyflogau a ddangosir ar gyfer blwyddyn 2020-2021. Dangosir y cyflogau ar gyfer y Chweched Senedd ym Mharagraff 5.39 isod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Llywydd | £67,649 | £43,338 | **£110,987** |
| Y Dirprwy Lywydd | £67,649 | £22,197 | **£89,846** |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £67,649 | £13,741 | **£81,390** |
| Cadeiryddion pwyllgor (uwch) | £67,649 | £13,741 | **£81,390** |
| Cadeiryddion pwyllgor (is) | £67,649 | £9,154 | **£76,803** |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £67,649 | £9,154 | **£76,803** |
| Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth[6] | £67,649 | £13,741 + £1,057 fesul Aelod hyd at £38,052 | **Amrywio rhwng** **£84,561 a £105,701** |

**5.21.** Yn ystod ei adolygiad, trafododd y Bwrdd a yw'r lefelau cyflog hyn yn parhau i fod yn briodol neu a ddylid eu newid. Trafododd y Bwrdd a oedd pwysoliad y swydd wedi newid ers y Penderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd, h.y. cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau a gyflawnir gan yr Aelodau, y newidiadau posibl i gyfrifoldebau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, a chymaryddion perthnasol yn seneddau eraill y DU.

**5.22.** Ym mis Mawrth 2020, trafododd y Bwrdd Taliadau yr addasiad blynyddol i gyflogau'r Aelodau a gymhwysir fel arfer bob mis Ebrill yn unol â'r enillion canolrifol yng Nghymru a nodir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Byddai'r addasiad ym mis Ebrill 2020 wedi arwain at gynnydd 4.4 y cant. O ystyried effaith economaidd sylweddol pandemig COVID-19 yng Nghymru, penderfynodd y Bwrdd ohirio'r addasiad blynyddol am chwe mis. Ysgrifennodd y Bwrdd at yr Aelodau ar 31 Mawrth 2020 i esbonio ei benderfyniad a rhoi gwybod iddynt y byddai'r Penderfyniad ar gyfer 2020-21 yn cynnal cyflogau ar lefel 2019-20, ond y byddai'r Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa. Cyhoeddwyd y Penderfyniad ar gyfer 2020-2021 wedi hynny gan gadw cyflogau'r Aelodau ar yr un lefel â 2019-2020 am y chwe mis cyntaf.

[6] Diffinnir grŵp gwleidyddol yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.23.** Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, cynigiodd y Bwrdd y dylai'r lefelau cyflog sylfaenol a deiliad swydd ychwanegol aros yn ddigyfnewid ar gyfer y Chweched Senedd, yn amodol ar addasiad blynyddol yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion - enillion canolrifol gros swyddi gweithwyr amser llawn yng Nghymru dros y deuddeg mis blaenorol. Cynigiodd y Bwrdd gywiriad technegol i newid pwynt cyfeirio’r broses fynegeio fel ei fod yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Ebrill yn hytrach na rhwng mis Mawrth a mis Mawrth. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfnod a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth gynnal yr arolwg.

**5.24.** Nid yw'n glir eto beth fydd y goblygiadau i rolau a chyfrifoldebau’r Aelodau o ganlyniad i ddatblygiadau cyfansoddiadol, megis Brexit a gwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Yn ogystal â ffactorau allanol, bydd y ffordd y mae'r Senedd, ei phwyllgorau a'i Haelodau'n penderfynu ymateb yn dylanwadu ar newidiadau i rolau a chyfrifoldebau’r Aelodau. Felly, nid yw'r ffactorau hyn yn sbardun ar gyfer newidiadau i gyflogau’r Aelodau na deiliaid swyddi ar hyn o bryd.

**5.25.** Hefyd, mae’r Bwrdd o’r farn bod y trefniadau mynegeio presennol yn parhau i fod yn briodol gan eu bod yn sicrhau bod cyflogau'r Aelodau'n adlewyrchu newidiadau yn yr enillion cyfartalog yng Nghymru, ac felly amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Mae hyn yn deg i'r Aelodau ac yn cynnig gwerth am arian. Mynegwyd yr un farn â’r Bwrdd gan yr holl ymatebwyr i'w ymgynghoriad ar Ran 3 o'r adolygiad o'r Penderfyniad (tâl yr Aelodau a'r Aelodau'n gadael eu swyddi). Fel y cyfryw, cynigiodd y Bwrdd gynnal y lefelau cyflog presennol sy'n daladwy i’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, yn amodol ar drefniadau mynegeio blynyddol, drwy gydol y Chweched Senedd.

**5.26.** Wrth adolygu cyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, nododd y Bwrdd anghysondeb yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â’r cyflog y mae gan ddeiliaid swyddi dros dro neu ddarpar ddeiliaid swyddi hawl iddo.

**5.27.** Caiff Darpar Gwnsler Cyffredinol ymgymryd â swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol pan fydd y swydd yn wag neu pan na all y Cwnsler Cyffredinol weithredu fel arall. Fel arfer, bydd y swydd yn wag fel hyn pan fydd y Prif Weinidog yn newid, oherwydd y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gadael ei swydd pan fydd y Senedd yn enwebu Prif Weinidog newydd. Yna, bydd y Prif Weinidog newydd yn enwebu person i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol. Bydd swydd y Cwnsler Cyffredinol yn parhau i fod yn wag nes i enwebiad y Prif Weinidog ar gyfer Cwnsler Cyffredinol gael ei dderbyn gan y Senedd a'i gymeradwyo gan y Frenhines. Pan fydd y swydd yn wag, neu pan na fydd y Cwnsler Cyffredinol yn gallu gweithredu fel arall, mae adran 49(6) o

Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Prif Weinidog benodi Darpar Gwnsler Cyffredinol i ymgymryd â swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol am hyd at chwe mis. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer talu cyflog i Ddarpar Gwnsler Cyffredinol. Cynigiodd y Bwrdd wneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y Penderfyniad.

**5.28.** Yn yr un modd, mae’r Bwrdd yn credu y byddai'n ddoeth rhoi darpariaeth debyg ar waith ar gyfer talu cyflog yn yr amgylchiadau prin pan fo angen i’r Senedd benodi Darpar Brif Weinidog (yn unol ag adran 46(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Fel y cyfryw, cynigiodd y Bwrdd gynnwys darpariaeth debyg yn y Penderfyniad ar gyfer Darpar Brif Weinidog â Darpar Gwnsler Cyffredinol.

**5.29.** Cynigiwyd darpariaethau tebyg gan y Bwrdd i ganiatáu talu cyflog i Aelod a etholir yn unol â Rheol Sefydlog 6.24 i weithredu fel Llywydd dros dro ac Aelod a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 17.22 fel Cadeirydd Pwyllgor dros dro. Mae’r darpariaethau a gynigiwyd yn nodi na fydd Aelod a benodir yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn gymwys i gael cyflog deiliad swydd ychwanegol os bydd y cyfnod pan fydd yn arfer swyddogaethau Cadeirydd Pwyllgor yn llai nag un mis calendr. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw Aelod a benodir yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro am gyfnod byr iawn yn gymwys i gael tâl (e.e. am gadeirio un cyfarfod yn unig).

**5.30.** Ni chynigiwyd y gohiriad un mis calendr cyn dechrau talu’r cyflog ychwanegol ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor dros dro ar gyfer swyddi’r Darpar Brif Weinidog, y Darpar Gwnsler Cyffredinol na’r Llywydd dros dro. Cynigiwyd dechrau talu cyflogau ychwanegol y swyddi hynny ar adeg penodi neu ethol deiliaid iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith na fydd Cadeirydd Pwyllgor dros dro, o reidrwydd, yn arfer holl gyfrifoldebau Cadeirydd parhaol y Pwyllgor. Er enghraifft, mae’n bosibl y caiff ei benodi'n unswydd at ddibenion cadeirio cyfarfodydd am gyfnod byr, heb arfer cyfrifoldebau eraill deiliad parhaol y swydd. Mae rôl Darpar Brif Weinidog, Darpar Gwnsler Cyffredinol neu Lywydd dros dro yn wahanol yn hyn o beth. Am y rhesymau hyn, mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn briodol gohirio dechrau talu cyflog deiliad swydd ychwanegol i Gadeirydd Pwyllgor dros dro am un mis, ond nid cyflogau Darpar Brif Weinidog, Darpar Gwnsler Cyffredinol na Llywydd dros dro.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.31.** Cafwyd cefnogaeth gan yr holl bobl a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Ran Tri o'r adolygiad (Tâl yr Aelodau a’r Aelodau’n gadael eu swyddi) ar y cynigion i gadw cyflogau'r Aelodau ar y lefelau presennol a thalu deiliaid swyddi ychwanegol dros dro.

**5.32.** Nododd Pwyllgor Busnes y Senedd gefnogaeth i gynigion y Bwrdd i dalu Llywydd dros dro a chadeiryddion pwyllgor dros dro. Galwodd y Pwyllgor am dalu Dirprwy Lywydd dros dro hefyd.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.33.** Penderfynodd y Bwrdd beidio â gweithredu awgrym y Pwyllgor Busnes y dylai'r Penderfyniad ddarparu tâl ar gyfer swydd Dirprwy Lywydd dros dro. Nododd y Bwrdd na ddarperir ar gyfer swydd Dirprwy Lywydd dros dro yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Nid oedd y Bwrdd yn teimlo ei bod yn briodol cynnwys darpariaethau yn y Penderfyniad i dalu am swydd nad yw'n bodoli'n ffurfiol. Pe bai swydd Dirprwy Lywydd dros dro yn cael ei gwneud yn swydd ffurfiol yn y Rheolau Sefydlog, byddai’r Bwrdd yn adolygu ei benderfyniad ar dâl ar gyfer y swydd hon.

**5.34.** Ar 18 Mawrth 2020, mewn ymateb i argyfwng COVID-19, derbyniodd y Senedd newidiadau i'w Rheolau Sefydlog i ganiatáu ar gyfer ethol Aelodau i ddwy swydd newydd eu creu: Darpar Lywydd dros dro a Chadeirydd dros dro y Cyfarfod Llawn. Crëwyd y swyddi newydd hyn er mwyn gallu cyflenwi ar adegau pan na all y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd weithredu neu na allant gadeirio Cyfarfod Llawn.

**5.35.** Trafododd y Bwrdd a ddylid darparu tâl i ddeiliaid y swyddi hyn. Pe bai'n ofynnol i'r Darpar Lywydd dros dro weithredu fel y Llywydd, ef fyddai’r Llywydd dros dro a darperir tâl am y swydd hon eisoes.

**5.36.** Mae swydd Cadeirydd dros dro y Cyfarfod Llawn yn swydd dros dro a gadarnheir gan Reol Sefydlog 34, ac ni fydd yn cael effaith ar ôl diddymu'r Senedd (neu pan fydd y Senedd yn penderfynu gwneud hynny, os ynghynt). Ni chaniateir i Gadeirydd dros dro y Cyfarfod Llawn ymgymryd â holl swyddogaethau'r Llywydd sy’n cadeirio Cyfarfod Llawn fel arfer. Am y rhesymau hyn, penderfynodd y Bwrdd na ddylid talu am y swyddi hyn sydd newydd eu creu.

**5.37.** Fel rhan o'i drafodaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd fod mynegeio cyflogau’r Aelodau â'r enillion canolrifol yng Nghymru fel y nodwyd gan yr arolwg blynyddol a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i fod yn briodol. Ar yr un pryd, cydnabu’r Bwrdd fod addasiadau cyflog yn unol ag enillion canolrifol yng Nghymru yn tueddu i amrywio ac, yn naturiol, mae'r dangosydd yn adlewyrchu hinsawdd economaidd y flwyddyn flaenorol. Trafododd a ddylid cyfyngu ar addasiadau o'r fath.

**5.38.** Yn ei ymateb i’r ymgynghoriad, gofynnodd Grŵp Plaid Cymru i godiadau cyflog o ganlyniad i’r trefniadau mynegeio blynyddol gael eu cysoni â’r trefniadau ar gyfer gweision

cyhoeddus eraill a gweithwyr y sector cyhoeddus. Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn parhau i fod yn ddangosydd priodol ac yn adlewyrchu economi ehangach Cymru. Mae'n ymwybodol, fel yn 2020-21, y gall y dangosydd fod yn wahanol, ar adegau, i'r amodau economaidd presennol. Mae'r Mesur yn cyfyngu'r Bwrdd rhag gwneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â chyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi a fydd yn cael effaith yn ystod pob tymor yn y Senedd oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud penderfyniad arall. Gwnaed penderfyniad ar fynegeio cyflogau ar gyfer y Chweched Senedd, felly dim ond os yw o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud penderfyniad arall i gael effaith yn ystod y Chweched Senedd y gallai'r Bwrdd ailedrych ar y penderfyniad hwnnw. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn rhoi digon o ryddid i ailedrych ar gyflogau’r Aelodau yn ystod y Chweched Senedd os yw'r amgylchiadau'n golygu y bernid ei bod yn rhesymol gwneud hynny.

**5.39.** Mae’r rhestr a ganlyn o swyddi â thâl yn y Chweched Senedd yn adlewyrchu’r penderfyniadau a wnaeth y Bwrdd yn dilyn yr adolygiad[7]:

| Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol | Cyflog sylfaenol 2021-22 | Cyflog ychwanegol 2021-22 | Cyfanswm cyflog 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Prif Weinidog | £70,626 | £83,869 | **£154,494** |
| Gweinidogion Cymru | £70,626 | £39,762 | **£110,352** |
| Cwnsler Cyffredinol | £70,626 | £39,762 | **£110,352** |
| Dirprwy Weinidog | £70,626 | £23,174 | **£93,799** |
| Llywydd | £70,626 | £45,245 | **£115,870** |
| Dirprwy Lywydd | £70,626 | £23,174 | **£93,799** |
| Comisiynydd y Senedd | £70,626 | £14,346 | **£84,971** |
| Cadeirydd pwyllgor (uwch) | £70,626 | £14,346 | **£84,971** |
| Cadeirydd pwyllgor (is) | £70,626 | £9,557 | **£80,182** |

[7] Mae’r ffigurau hyn yn tybio y bydd cyflogau’r Aelodau’n cael eu haddasu ym mis Hydref 2020 yn unol â’r enillion canolrifol gros yng Nghymru fel y’u nodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gall cyflogau o’r fath hefyd gael eu haddasu yn yr un ffordd ym mis Ebrill 2021.

| Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol | Cyflog sylfaenol 2021-22 | Cyflog ychwanegol 2021-22 | Cyfanswm cyflog 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Aelod Pwyllgor Busnes | £70,626 | £9,557 | **£80,182** |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth[8] | £70,626 | £14,346 + £1,104 yr Aelod hyd at £39,726 | **Amrywio o** <br> **£88,284 i £110,352**[9] |

[8] Diffinnir Grŵp yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

[9] Mae cyflog arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw yn y llywodraeth wedi'i gyfyngu ar y cyflog sy'n daladwy i Weinidogion Cymru

## Pennod 3A: Cymorth ychwanegol

**5.40.** Cynigiodd y Bwrdd fewnosod pennod newydd yn y Penderfyniad yn nodi'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i’r Aelodau sydd â nodweddion neu gyfrifoldebau penodol. Mae Pennod 3A yn nodi'r cymorth ychwanegol a fydd ar gael yn ystod y Chweched Senedd i Aelodau ag anableddau, y rhai â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai ar absenoldeb rhiant. Mae rhai o'r darpariaethau yn y bennod newydd hon yn ddarpariaethau presennol sydd wedi'u symud o benodau eraill yn y Penderfyniad. Mae eraill yn ddarpariaethau newydd a gynigiwyd gan y Bwrdd ar gyfer 2021-2026.

**5.41.** Diben y darpariaethau yn y bennod newydd hon yw dileu neu leihau’r rhwystrau i sefyll etholiad i’r Senedd y mae pobl â nodweddion neu gyfrifoldebau penodol yn eu hwynebu, a denu ystod fwy amrywiol o ddarpar ymgeiswyr. Bydd yr holl ad-daliadau cost a nodir yn y bennod hon yn cael eu talu o gronfeydd canolog.[10]

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.42.** Cynigiodd y Bwrdd sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i gefnogi Aelodau anabl a staff cymorth, ac i helpu'r Aelodau i ymgysylltu ag etholwyr anabl. Byddai adnoddau o'r fath yn cael eu defnyddio i dalu costau unrhyw addasiad rhesymol sydd ei angen, er enghraifft addasiadau i swyddfeydd. Yn flaenorol, gallai’r Aelodau wneud cais am gymorth ychwanegol o'r fath drwy Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad Comisiwn y Senedd. Bwriedir i’r darpariaethau newydd yn y Penderfyniad ar gymorth i Aelodau ag anableddau ddisodli'r Gronfa hon.

**5.43.** Mae'r Bwrdd yn gryf o blaid egwyddor o ddileu rhwystrau a allai, fel arall, atal rhieni a gwarcheidwaid, pobl sy'n bwriadu dechrau teulu, neu bobl â chyfrifoldebau gofalu eraill, rhag sefyll etholiad i'r Senedd.

**5.44.** Trafododd y Bwrdd y lwfansau gofal sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig eraill, yn fwyaf nodedig y lwfans a ddarperir gan Banel Taliadau Annibynnol Cymru ar gyfer aelodau awdurdodau lleol: mae aelodau prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gymwys i gael ad-daliad o’r costau gofal hyd at £403 y mis.

[10] Mae cronfeydd canolog yn golygu cyllid a ddarperir drwy'r Penderfyniad ond nad yw'n rhan o unrhyw un o'r lwfansau penodol sydd ar gael i’r Aelodau neu bleidiau gwleidyddol dan y Penderfyniad hwn.

**5.45.** Yn adran 3A.3 newydd o’r Penderfyniad, cynigiodd y Bwrdd y dylai Aelodau o’r Senedd gael hawlio cyfraniad cyfyngedig i helpu tuag at y gost o ofalu am blant dibynnol neu berthnasau eraill sy'n dibynnu ar yr Aelod am eu gofal pan fydd angen gofal o'r fath er mwyn i Aelod ymgymryd â’i ddyletswyddau. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi y dylai'r amserlen fusnes wythnosol, fel arfer, geisio osgoi amserlennu busnes cyn 09:00 neu ar ôl 18:00 ar unrhyw ddiwrnod gwaith. Mae hyn yn ymwneud â rhoi sylw i gyfrifoldebau teuluol yr Aelodau a’u cyfrifoldebau etholaethol neu ranbarthol. Roedd y darpariaethau newydd a gynigiwyd yn nodi, yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn y Rheolau Sefydlog, mai dim ond pan ysgwyddir y costau gofal y tu allan i’r cyfnod rhwng 09:00 a 18:00 ar ddiwrnodau gwaith y gellir eu had-dalu. Er nad yw’r disgwyliadau o ran oriau busnes wythnosol a nodir yn y Rheolau Sefydlog o bosibl yn adlewyrchiad cywir o’r oriau a weithiwyd gan yr Aelodau’n ddiweddar, ystyrir mai dyma’r canllaw mwyaf defnyddiol sydd ar gael at ddiben pennu’r ffiniau ar gyfer defnyddio’r cymorth hwn.

**5.46.** Cynigiwyd y byddai gan bob Aelod hawl i gyfraniad o hyd at £297 y mis tuag at gostau gofal plant neu oedolion dibynnol yn eu gofal. Dim ond i ddarparwyr gofal cofrestredig y byddai hawliadau’n cael eu talu a phan gyflwynir tystiolaeth ategol, megis prawf cofrestru’r darparwr gofal a derbynebau ar gyfer y gofal a ddarparwyd. Roedd y Bwrdd o’r farn bod y gofynion hyn yn briodol ar sail diogelu ac uniondeb gwariant.

**5.47.** Amlinellodd paragraff 3A.4 o'r Penderfyniad drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad y cymorth roedd y Bwrdd am iddo fod ar gael i’r Aelodau sy'n dewis cymryd math o absenoldeb rhiant, h.y. absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu. Gallai cymorth o’r fath fod ar ffurf aelod ychwanegol o staff neu adnoddau ychwanegol yn ôl yr angen, gan y gallai’r trefniadau amrywio yn ôl anghenion yr Aelod.

**5.48.** Cynigiodd y Bwrdd hefyd y dylid cyhoeddi manylion hawliadau a wneir gan yr Aelodau am ad-dalu costau sy'n gysylltiedig ag anableddau neu ofalu am eraill ar sail ddienw, gyfanredol ar gyfer pob math o hawliad, yn hytrach na'u priodoli i Aelodau unigol. Teimlwyd y byddai'r dull hwn o gyhoeddi manylion hawliadau’n helpu i leihau pryderon neu stigma y gallai’r Aelodau ei deimlo ynghylch cael mynediad at gymorth ychwanegol dilys ac angenrheidiol, ond gan barhau i ddarparu tryloywder ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.49.** Denodd y darpariaethau a nodir yn y Bennod 3A newydd fwy o sylw na chynigion eraill a gyflwynwyd gan y Bwrdd.

**5.50.** Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth gref i gynigion y Bwrdd gan gyfranwyr i'r adolygiad. Cafodd bwriad y Bwrdd i'w gwneud yn haws i’r rheini sydd â nodweddion neu gyfrifoldebau penodol wasanaethu fel Aelodau o'r Senedd ei groesawu, ynghyd â mewnosod pennod newydd yn y Penderfyniad i nodi, mewn un man, y cymorth ychwanegol a fydd ar gael i bersonau o’r fath.

**5.51.** Mynegodd dau aelod o'r cyhoedd eu hanfodlonrwydd ar y cynnig i ganiatáu i’r Aelodau hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal. Sail eu gwrthwynebiad i'r cynnig oedd bod Aelodau o'r Senedd yn cael eu talu'n well na gweithwyr eraill nad ydynt yn cael hawlio ad-daliad o’r costau gofalu am ddibynyddion.

**5.52.** I'r gwrthwyneb, cefnogodd Chwarae Teg, elusen sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, y cynnig ar ad-dalu costau gofal ond roedd yn teimlo y dylai'r Bwrdd fynd ymhellach drwy ganiatáu i'r Aelodau hawlio ad-daliad am gostau gofal a ysgwyddir yn ystod amser eistedd neu amser teithio’r Senedd, yn hytrach na'r tu allan i oriau gwaith arferol y Senedd yn unig.

**5.53.** Pwysleisiodd tri ymatebydd i'r ymgynghoriad nad rhwystrau ariannol, o reidrwydd, yw'r rhwystrau y mae’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal plant yn eu hwynebu rhag sefyll etholiad. Gwnaethant dynnu sylw at ddiffyg darpariaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yng nghyffiniau’r Senedd a’r tu allan i oriau gwaith arferol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y dylai'r Bwrdd weithio gyda Chomisiwn y Senedd a chyflogwyr yn ardal Bae Caerdydd i drafod y posibilrwydd o gaffael gofal plant hyblyg a fforddiadwy ar y cyd y gallai'r Aelodau ei ddefnyddio. Awgrymwyd hefyd y dylid sefydlu darpariaeth crèche yn y Senedd.

**5.54.** Dadleuodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru y dylai'r Bwrdd Taliadau ganiatáu ar gyfer Aelodau locwm i gyflenwi ar gyfer Aelodau ar absenoldeb rhiant, yn lle aelod staff ychwanegol na allai gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd, er mwyn osgoi'r posibilrwydd i Aelodau ar absenoldeb rhiant orfod mynd i'r Senedd er mwyn pleidleisio. Awgrymodd yr un sefydliad y dylid caniatáu i Aelodau ar absenoldeb rhiant bleidleisio drwy ddirprwy.

**5.55.** Yn ystod y cyfnod adolygu, penderfynodd Pwyllgor Busnes y Senedd ganiatáu i Aelodau ar absenoldeb rhiant bleidleisio yn nhrafodion y Senedd drwy ddirprwy, h.y. gallai Aelodau eraill fwrw eu pleidleisiau pan fo’r Aelodau ar absenoldeb rhiant. Nododd y Bwrdd y byddai’r newid hwn yn cyd-fynd â chynigion y Bwrdd i leihau rhwystrau i sefyll etholiad i’r Senedd.

**5.56.** Cafwyd cefnogaeth i gynnig y Bwrdd i gyhoeddi manylion dienw hawliadau a wnaed yn unol â Phennod 3A gan Chwarae Teg a nododd y gallai egluro lle yr aed i dreuliau oherwydd addasiadau rhesymol, cyfrifoldebau gofalu neu absenoldeb rhiant leddfu’r pwysau a all fod ar

rai Aelodau i gadw hawliadau mor isel â phosibl ac ildio’r cymorth y mae arnynt ei angen o ganlyniad i hynny.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.57.** Yn sgil y gefnogaeth glir a fynegwyd i'w gynigion ar gymorth ychwanegol i’r Aelodau, cytunodd y Bwrdd i weithredu ei gynigion.

**5.58.** O ran ei gynigion sy’n ymwneud â hawliadau am gostau gofal plant, trafododd y Bwrdd yr awgrym y dylid estyn y ddarpariaeth fel ei bod yn gymwys yn ystod amser eistedd y Senedd ac amser teithio’r Aelodau. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn teimlo y byddai hyn yn tanseilio diben y ddarpariaeth. Y diben oedd cydnabod bod rôl Aelod yn wahanol i'r mwyafrif o broffesiynau eraill, o ran nifer yr oriau gwaith nad ydynt yn ystyriol o deuluoedd, a darparu cyfraniad tuag at gostau gofal plant yn ystod oriau o'r fath. Nid oedd y Bwrdd yn teimlo bod dadl gref dros ad-dalu costau gofal plant yr Aelodau a ysgwyddir ar adegau eraill. Hefyd, penderfynodd y Bwrdd egluro yn y Penderfyniad na fyddai'r costau gofal plant a ysgwyddir yn ystod y toriad yn cael eu had-dalu gan nad oedd hyn yn glir yn y Penderfyniad drafft yr ymgynghorwyd arno.

**5.59.** Gan gydnabod y gallai hawliadau am gostau gofal plant gael eu cyfyngu gan y diffyg darpariaeth gofal plant hyblyg yng nghyffiniau'r Senedd y cyfeiriwyd ato gan rai ymatebwyr, cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd a gwahodd y Comisiwn i drafod y dystiolaeth a gafwyd ar y mater hwn.

**5.60.** Nid oedd y Bwrdd yn cytuno â'r awgrym y dylai Aelod locwm gyflenwi i Aelod ar absenoldeb rhiant. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru na rheolau a gweithdrefnau'r Senedd yn caniatáu i bersonau heblaw am Aelodau a etholir yn ddemocrataidd ymgymryd â swyddogaethau Aelod yn nhrafodion ffurfiol y Senedd. Byddai unrhyw newid i hyn yn gofyn newid y gyfraith a byddai'n fater i'r Senedd ei hun. Ar ôl trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae’r Bwrdd o’r farn mai aelod ychwanegol o staff i helpu gyda llwyth gwaith Aelod ar absenoldeb rhiant yw'r math mwyaf addas o ddarpariaeth gyflenwi yn y Penderfyniad. Diben aelod staff ychwanegol o'r fath fyddai helpu i reoli gwaith yr Aelod ac nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau gwleidyddol nac etholedig.

**5.61.** Tynnodd Chwarae Teg sylw at y ffaith na fydd darparwyr gofal plant llai bob amser yn rhoi derbynebau ar y ffurf sy'n ofynnol yn ôl y Penderfyniad drafft i gyd-fynd â hawliadau am ad-dalu costau gofal plant. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd o’r farn ei bod yn rhesymol disgwyl bod darparwyr gofal cofrestredig yn gallu cynhyrchu derbynebau. Nid yw'r darpariaethau a

gynigiwyd yn gwneud gofynion penodol ar fformat derbynebau o'r fath. Penderfynodd y Bwrdd gynnal y gofyniad i dderbynebau o'r fath gyd-fynd â hawliadau gan yr Aelodau.

**5.62.** Dadleuodd un ymatebydd y dylai'r hawliadau am gostau gofal plant fod ar gael i staff cymorth yr Aelodau, yn ogystal â'r Aelodau. Er ei fod yn cydnabod y gall fod angen i staff cymorth weithio'n hwyr i gefnogi’r Aelod sy'n eu cyflogi, nid oedd y Bwrdd yn teimlo bod digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i sicrhau bod hawliadau am gostau gofal plant ar gael i staff yr Aelodau.

**5.63.** Cafwyd sylwadau penodol ar y darpariaethau a gynigiwyd i ddarparu cymorth ychwanegol i’r Aelodau ar absenoldeb rhiant. Awgrymodd Chwarae Teg y dylai'r diffiniad o absenoldeb rhiant gynnwys absenoldeb rhiant a rennir, yn ogystal ag absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu. Fodd bynnag, oherwydd eu statws cyflogaeth, nid yw Aelodau o'r Senedd yn gymwys i gael absenoldeb rhiant a rennir ac nid ystyriwyd ei bod yn briodol cynnig hawl i fath o absenoldeb a oedd yn cyfateb i absenoldeb rhiant a rennir.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.64.** Yn sgil yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb, argymhellodd Diverse Cymru na ddylai diffiniad dibynyddion at ddiben y lwfans gofal fod yn gyfyngedig i aelodau teulu yn unig, ar y sail ei bod yn bosibl bod Aelod neu ddarpar ymgeisydd yn darparu gofal rheolaidd i oedolion heblaw am aelodau teulu. Trafododd y Bwrdd sut y mae 'dibynyddion eraill' wedi’u diffinio mewn cyd-destunau eraill. Ar y sail nad yw'r cymorth sydd ar gael mewn cyd-destunau eraill fel arfer yn gyfyngedig i ofal am aelodau teulu yn unig, penderfynodd y Bwrdd estyn y ddarpariaeth i ganiatáu ar gyfer ad-dalu costau gofal i oedolion nad ydynt yn aelodau teulu. Mae’r fersiwn derfynol o’r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn caniatáu i’r Aelodau hawlio am gostau gofal oedolion sy'n byw gyda'r Aelod, gyda rhai cyfyngiadau, neu berson sy'n dibynnu'n rhesymol ar yr Aelod am ei ofal neu drefnu ei ofal.

**5.65.** Awgrymodd Diverse Cymru hefyd, fel rhan o’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb, y dylid cymhwyso rhywfaint o hyblygrwydd i'r gofyniad y dylai’r Aelodau sydd am hawlio cymorth ychwanegol pan fyddant ar absenoldeb rhiant roi gwybod i Gomisiwn y Senedd am eu bwriad i gymryd absenoldeb rhiant cyn eu dyddiad gadael. Nodwyd nad yw bob amser yn bosibl i’r Aelodau roi rhybudd ymlaen llaw o'r angen i gymryd absenoldeb rhiant. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn teimlo bod geiriad y darpariaethau perthnasol yn y Penderfyniad eisoes yn rhoi digon o hyblygrwydd o ran y gofyniad hwn pan fo'n briodol gwneud hynny.

**5.66.** Awgrymodd yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a Grŵp Llafur Cymru y dylid aralleirio’r Penderfyniad i adlewyrchu’r model cymdeithasol o anabledd, yn hytrach na’r model meddygol a adlewyrchir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r model meddygol yn rhoi’r ffocws ar y nodweddion personol nad ydynt yn caniatáu i berson ymgymryd â gweithgareddau penodol, h.y. cyflyrau neu namau iechyd. Mae'r model cymdeithasol yn rhoi’r ffocws ar y rhwystrau cymdeithasol sy'n atal person â chyflyrau neu namau iechyd penodol rhag ymgymryd â gweithgareddau penodol. Nododd Diverse Cymru, yn yr asesiad, fanteision y model cymdeithasol o anabledd sy'n cynnwys cael gwared ar stigma sy'n gysylltiedig â nodweddion corfforol neu feddyliol penodol. Cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad hwn ac aileirio’i Benderfyniad i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd.

## Pennod 4: Gwariant ar lety preswyl

**5.67.** Mae Pennod 4 yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i’r Aelodau dalu costau llety sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â’u dyletswyddau fel Aelodau yn y Senedd, eu hetholaethau neu eu rhanbarthau neu leoliadau eraill. At ddibenion y Penderfyniad, ystyrir bod prif breswylfeydd yr Aelodau mewn un o dair ardal.

- ardal fewnol (yr ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Gorllewin De Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru fel y maent yn sefyll ar ddechrau pob Senedd, ac eithrio’r etholaethau sydd yn yr ardal ryngol);
- ardal ryngol (etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe); neu
- yr ardal allanol (ffiniau rhanbarthau etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru).

**5.68.** Mae'r lwfansau llety preswyl sydd ar gael i’r Aelodau’n dibynnu, i raddau helaeth, ar ardal eu prif breswylfa. Mae'r trefniant hwn yn adlewyrchu’r ffaith bod angen i rai Aelodau deithio i Fae Caerdydd a rhentu llety sy’n agos at y Senedd neu aros mewn gwesty er mwyn ymgymryd â’u dyletswyddau, tra na fydd gan eraill ofynion o'r fath oherwydd agosrwydd eu prif breswylfa at y Senedd (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol). Mae Pennod 4 hefyd yn darparu lwfansau i dalu costau llety dros nos a ysgwyddir gan yr Aelodau wrth ymgymryd â busnes heblaw yn y Senedd neu eu hetholaethau neu eu rhanbarthau.

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.69.** Yn ystod y Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad, roedd gan yr Aelodau hawl i hawlio ad-daliad o daliadau llog morgais a chostau atgyweiriadau hanfodol ar ail eiddo a brynwyd er mwyn eu galluogi i ymgymryd â’u dyletswyddau.

**5.70.** Yn 2011, penderfynodd y Bwrdd na ddylai’r Aelodau fod â hawl i hawlio ad-daliad costau o'r fath mwyach. Rhoddwyd trefniadau trosiannol ar waith a oedd yn caniatáu i’r Aelodau a oedd wedi prynu ail gartref cyn y Trydydd Cynulliad barhau i gael ad-daliad o daliadau llog morgais tan ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Ni nodwyd dyddiad gorffen ar gyfer trefniadau trosiannol o'r fath yn y Penderfyniad. Yn Rhan Un o'i adolygiad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau), cynigiodd y Bwrdd y dylid rhoi terfyn ar drefniadau trosiannol o'r fath ar ôl diddymu'r Bumed Senedd. Ar ôl trafod ymatebion i'w

ymgynghoriad ar Ran un o’r adolygiad, diwygiodd y Bwrdd ei gynnig fel y byddai trefniadau trosiannol o'r fath yn dod i ben ar ôl diddymu'r Chweched Senedd.

**5.71.** Hefyd, cynigiodd y Bwrdd fod yn rhaid i’r Aelodau ad-dalu i Gomisiwn y Senedd yr holl ad-daliadau o gytundebau rhentu, gan gynnwys bondiau blaendal rhentu a ddychwelwyd.

**5.72.** Cynigiodd y Bwrdd newidiadau mân i Bennod 4 er mwyn cadarnhau y bydd costau mesurau diogelwch a argymhellir ar gyfer yr Aelodau gan Dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd yn cael eu hariannu gan y Penderfyniad.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.73.** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft llawn, gwrthwynebodd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y cynnig i roi terfyn ar daliadau llog morgais i’r Aelodau. Roedd dadleuon dros gadw taliadau o'r fath a gyflwynwyd gan y Grŵp yn cynnwys, pe baent yn cael eu gweithredu, y byddai rhoi terfyn ar daliadau o'r fath yn cynyddu'r gost i'r trethdalwr. Y rheswm am hyn oedd y gallai talu taliadau llog morgais rhai Aelodau fod yn rhatach na thalu costau rhentu y byddent yn eu hysgwyddo fel arall. Dadl arall a gyflwynwyd oedd y dewisodd nifer o Aelodau’r Cynulliad â phlant sy’n byw ymhell o’u cartref brynu eiddo i ddarparu rhywfaint o sicrwydd a sefydlogrwydd i’w trefniadau llety ar eu cyfer hwy a’u dibynyddion.

**5.74.** Cafwyd cefnogaeth gan bawb a wnaeth sylwadau ar gynnig y Bwrdd ynghylch ad-dalu ad-daliadau a gafwyd o gytundebau rhentu.

**5.75.** Holodd Grŵp Llafur Cymru am briodoldeb y trefniadau sydd ar waith i benderfynu cymhwysedd yr Aelodau i gael taliadau o'r Lwfans Llety Preswyl, a gofynnodd i'r Bwrdd gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau presennol gan nad oedd yn cytuno eu bod yn addas at y diben. Gwnaethant alw i'r meini prawf cymhwysedd fod yn seiliedig ar bellter gwirioneddol i’r gwaith o'r prif gartref neu amser teithio:

> We believe that travel to work time should be measured by the start and finish times of journeys and that this would better reflect the actual need for accommodation support. Reforming the system in this way would offer a fairer, more transparent and workable basis for determining the level of Residential Accommodation Expenditure Support […] As demonstrated by the evidence we provided on Member travel times in our response to the consultation on part one of the Determination, many Members in the ‘Intermediate’ and ‘Inner’ areas are currently working 12-13 hour days when travel to work times are taken into account. The workload and time pressures on Members in these

> travel areas are only likely to increase as the Senedd gains extra responsibilities. We believe that this worsening situation is not sustainable, particularly for those with families and caring responsibilities.

**5.76.** Cododd Aelod o'r Senedd, yn ymateb fel unigolyn i'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft llawn, bryderon hefyd am y lwfansau presennol ar gyfer llety preswyl. Roedd yr Aelod yn teimlo y dylai'r trefniadau ganiatáu i'r Aelodau sy'n cynrychioli ardaloedd rhyngol neu allanol ond y mae eu prif breswylfeydd yng Nghaerdydd, hawlio am ad-daliad o wariant ar lety preswyl yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau. Ar hyn o bryd, caiff Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau neu ranbarthau yn yr ardaloedd rhyngol neu allanol hawlio costau rhentu eiddo yng Nghaerdydd yn ôl, ond nid costau rhentu eiddo yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth os yw eu prif breswylfa yng Nghaerdydd (h.y. ni fyddent yn hawlio am gostau aros yng Nghaerdydd). Roedd yr Aelod yn teimlo y gallai'r trefniadau presennol fod yn gwahaniaethu yn erbyn menywod ar y sail mai Aelodau benywaidd, fel arfer, sy'n dewis symud eu teulu i Gaerdydd y byddai angen iddynt rentu llety yn yr etholaeth neu'r rhanbarth, yn hytrach nag aros mewn gwesty, er mwyn gofalu am ddibynyddion pan fyddant yn yr etholaeth neu'r rhanbarth.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.77.** Ar ôl trafod y dadleuon a gyflwynwyd, mae'r Bwrdd yn parhau i fod o'r farn y dylid rhoi terfyn ar dalu llog morgais yr Aelodau. Y rheswm am hyn yw sicrhau defnydd priodol o arian trethdalwyr ac er mwyn osgoi unrhyw risg o fudd ariannol amhriodol gan yr Aelodau ar eiddo y telir amdanynt yn rhannol gan arian cyhoeddus. Mae'r Bwrdd o'r farn bod estyn taliadau o'r fath tan ddiwedd y Chweched Senedd yn sicrhau tegwch i'r nifer gyfyngedig o Aelodau hirsefydlog sy'n dal i hawlio'r lwfans hwn.

**5.78.** Cytunodd y Bwrdd y dylid ad-dalu ad-daliadau a gafwyd o gytundebau rhentu'r Aelodau i Gomisiwn y Senedd.

**5.79.** Trafododd y Bwrdd y sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer penderfynu cymhwysedd ar gyfer ad-dalu gwariant llety preswyl. Cynhaliodd y Bwrdd ddadansoddiad trylwyr o'r pellterau a deithiwyd gan yr Aelodau wrth drafod y mater dan Ran un o'r adolygiad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau'r Aelodau a Chostau Swyddfa'r Aelodau ) a daeth i'r casgliad, bryd hynny, mai'r system bresennol oedd yr ateb gorau yn y ffiniau etholiadol presennol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, codwyd y Lwfans Llety Preswyl i Aelodau sy'n byw yn yr ardal ryngol o £3,200 i £6,840. Mae'r newid hwn yn golygu bod yr Aelodau sy'n gymwys bellach yn cael aros yng Nghaerdydd am ddwy noson yr wythnos os oes angen, yn

hytrach nag un. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd hyn yn ateb y pryderon a godwyd, drwy roi hyblygrwydd i’r Aelodau ar ddiwrnodau pan fo angen iddynt weithio oriau hwy.

**5.80.** O ran yr alwad i ganiatáu i’r Aelodau sy'n byw yng Nghaerdydd hawlio ad-daliad o gostau rhentu eiddo yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad yw'r trefniadau presennol yn wahaniaethol ac nad ydynt yn torri cyfreithiau cydraddoldeb. Fodd bynnag, cytunwyd bod y cwestiwn a godwyd yn werth ei drafod ymhellach a'i fod yn un y bydd angen i’r Bwrdd nesaf ei drafod efallai.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.81.** Mae paragraff 4.4.2 o'r Penderfyniad yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod sy'n byw yn yr ardal allanol gael caniatâd i hawlio ad-daliad o gostau rhentu eiddo â dodrefn yn ardal Caerdydd. Un amod o'r fath yw bod yn rhaid i'r eiddo yr hawlir costau rhentu ar ei gyfer ddiwallu anghenion rhesymol yr Aelod yn unig, e.e. ni ddylai eiddo o'r fath fod yn fwy na’r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu gofynion yr Aelod. Yn sgil yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb, awgrymodd Diverse Cymru y dylid diwygio'r paragraff hwn i egluro y gallai 'gofynion rhesymol' gynnwys gofynion hygyrchedd Aelod neu ofynion sy'n deillio o ofalu am ddibynyddion. Yn ymarferol, byddai’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yn ystyried bod gofynion hygyrchedd yn gyfystyr â gofynion rhesymol. Penderfynodd y Bwrdd yn erbyn rhestru mathau penodol o ofynion rhesymol oherwydd y risg y gellid ystyried bod rhestr o'r fath yn gynhwysfawr.

# Pennod 5: Siwrneiau’r Aelodau

**5.82.** Mae'r bennod hon o'r Penderfyniad yn nodi'r costau teithio y caiff yr Aelodau hawlio ad-daliad ar eu cyfer, gan gynnwys siwrneiau partneriaid Aelodau a’u plant o dan 18 oed. Cynhwysir darpariaethau sy'n ymwneud â’r canlynol:

- teithio yng Nghymru, y cyfeirir ato fel ‘teithio arferol’;
- teithio yn y DU y tu allan i Gymru, y cyfeirir ato fel ‘teithio estynedig’;
- teithio yn yr Undeb Ewropeaidd y tu allan i’r DU, y cyfeirir ato fel ‘teithio yn yr Undeb Ewropeaidd’;
- teithio y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd, y cyfeirir ato fel ‘teithio rhyngwladol’.

### *Cynigion y Bwrdd*

**5.83.** Roedd y Bwrdd yn teimlo bod y darpariaethau presennol ynghylch siwrneiau Aelodau yn gweithio'n dda a chynigiodd newidiadau cyfyngedig yn unig.

**5.84.** Mae rhai darpariaethau ym Mhennod 4 yn seiliedig ar aelodaeth y DU o'r UE ac ni fyddant yn briodol mwyach yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Cynigiodd y Bwrdd ailedrych ar y darpariaethau sydd ar waith ar gyfer teithio yn yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, yn hytrach na'u hadolygu yn ystod y cyfnod pontio. Bydd darpariaethau o'r fath yn parhau i ddarparu trefniadau teithio priodol i’r Aelodau hyd at ddiwedd y cyfnod pontio. Gall fod angen i’r Aelodau gael ymgysylltiad rheolaidd â'r UE ar nifer sylweddol o feysydd polisi datganoledig tan hynny.

**5.85.** Cynigiodd y Bwrdd hefyd ymdrin ag anghysondeb o ran siwrneiau’r Aelodau at ddibenion pwyllgor. Mater i Gomisiwn y Senedd, nid y Bwrdd, yw talu costau teithio Aelod a ysgwyddir yn ystod busnes pwyllgor. Felly, cynigiodd y Bwrdd newidiadau i Bennod 4 er mwyn adlewyrchu'r arfer hwn. Bydd y newid hwn yn helpu i egluro i’r Aelodau a’u staff cymorth pwy sy'n ariannu pob math o deithiau busnes yr Aelodau.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.86.** Mewn ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd ar Ran un o'i adolygiad o'r Penderfyniad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau), roedd y rhan fwyaf o’r rhai a wnaeth sylwadau ar gynigion sy’n ymwneud â lwfansau teithio’r Aelodau’n cefnogi'r cynigion.

**5.87.** Mae'r Penderfyniad yn caniatáu i’r Aelodau hawlio ad-daliad o gost hyd at 12 taith sengl ar drafnidiaeth gyhoeddus gan aelodau teulu rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Diben y lwfans hwn yw galluogi priod, partner sifil neu blentyn dan 18 oed i ymweld â'r Aelod sy’n aros yng Nghaerdydd at ddibenion gwaith. Mynegwyd amheuaeth yn yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a ellid cymhwyso hyblygrwydd i'r rheolau a nodir ym Mharagraff 5.18.1. Er enghraifft, a ddylid caniatáu i’r Aelodau hawlio ad-daliad o gost mwy na 12 taith sengl mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fo angen i briod neu blentyn anabl fynd gyda'r Aelod i Gaerdydd am resymau sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Enghraifft arall a roddwyd oedd y gall fod angen ar rai Aelodau i rywun nad yw'n bartner nac yn blentyn deithio gydag ef am resymau iechyd, er enghraifft gofalwr. Gofynnodd Diverse Cymru gwestiwn tebyg mewn perthynas â Pharagraff 5.21 o'r Penderfyniad sy'n nodi uchafswm teithiau trafnidiaeth gyhoeddus gan staff yr Aelodau y gellir hawlio ad-daliad ar eu cyfer.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.88.** Bydd Pennod 3A newydd o’r Penderfyniad yn caniatáu i’r Aelodau hawlio ad-daliad o gostau a ysgwyddir oherwydd yr angen am gymorth ychwanegol mewn perthynas â chyflyrau neu namau iechyd. Mae hyn yn cynnwys ceisio ad-daliad o'r costau y darperir ar eu cyfer yn gyffredinol mewn penodau eraill o'r Penderfyniad, gan gynnwys costau teithio ychwanegol. Gellid hawlio costau teithiau y tu hwnt i'r ffiniau a nodir ym Mhennod 5, a wneir oherwydd cyflwr neu nam iechyd Aelod, aelod teulu neu aelod staff Aelod, dan y Bennod 3A newydd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn glir yng ngeiriad y Penderfyniad drafft yr ymgynghorwyd arno, felly nid oedd yn teimlo bod angen rhagor o newidiadau.

**5.89.** Dadleuodd Grŵp Plaid Cymru dros eglurhad y bydd treuliau a ysgwyddir gan staff pan adelwir y Senedd yn cael eu had-dalu ar yr un sail â threuliau'r Aelodau. Roedd y Bwrdd yn teimlo, yn ymarferol, y byddai hawliadau am dreuliau o'r fath yn cael eu caniatáu ac y dylai'r cyngor a roddir gan y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau egluro hyn.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.90.** Awgrymwyd yn yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb y dylai'r Bwrdd ystyried cynnwys datganiad clir ym Mhennod 5 i gydnabod, er nad teithio mewn car yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio bob amser, y gall fod yr unig ddull dichonol i rai pobl anabl deithio, felly y dylid caniatáu ar gyfer hynny yn y Penderfyniad. Cytunodd y Bwrdd a phenderfynodd gynnwys egwyddor gyffredinol newydd ym Mhennod 5 i egluro bod teithio cost-effeithiol yn golygu'r dull neu’r dosbarth teithio rhataf sy'n briodol yn ôl gofynion Aelodau anabl.

# Pennod 6: Cronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr

**5.91.** Mae'r bennod hon o’r Penderfyniad yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i’r Aelodau at ddiben sefydlu a chynnal swyddfeydd yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Mae swyddfeydd o'r fath yn allweddol i allu Aelod i ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion a sefydliadau.

## *Cynigion y Bwrdd*

**5.92.** Cynigiodd y Bwrdd nifer o newidiadau i'r bennod hon. Y cyntaf oedd newid teitl y bennod o Gostau Swyddfa i’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr oherwydd y teimlwyd bod hyn yn adlewyrchiad gwell o ddiben a defnydd y lwfansau y mae’r bennod hon yn darparu ar eu cyfer.

**5.93.** Cynigiodd y Bwrdd Baragraff 6A.1 newydd sy’n gwneud newidiadau i'r egwyddorion y mae'n rhaid i’r Aelodau eu dilyn wrth gaffael swyddfa. Mae’r egwyddorion newydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Aelodau sy'n dewis ariannu swyddfa etholaethol neu ranbarthol o'r Penderfyniad sicrhau bod eu swyddfeydd yn cynnal enw da'r Cynulliad, yn ddiogel ac yn agored ac yn groesawgar i bawb sydd am eu defnyddio. Disgwylir i’r Aelodau hefyd ddilyn gweithdrefn ffurfiol ar gyfer caffael swyddfa a sicrhau bod yr holl brydlesi, contractau a dogfennau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r lwfans hwn yn cydymffurfio â'r gyfraith. Byddai'r cynnig hwn yn ymdrin ag argymhellion mewn perthynas â swyddfeydd a wnaed gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ym mis Tachwedd 2018. Mae’r Bwrdd o'r farn bod mwyafrif sylweddol o’r Aelodau eisoes yn cydymffurfio â'r rheolau hyn, ond y gallai eu ffurfioli sicrhau gwerth gwell am arian.

**5.94.** Cynigiodd y Bwrdd ddiwygiad i Baragraff 6.2.1 i egluro mai dim ond am gostau swyddfa a chostau cysylltu ag etholwyr y caniateir gwneud hawliadau am y lwfans hwn, a bod yn rhaid ystyried yr egwyddor a nodir ym Mhennod 1 o'r Penderfyniad na chaniateir gwneud hawliadau am ad-dalu gwariant sy'n ymwneud â gweithgaredd gwleidyddol plaid. Disodlodd y mewnosodiad hwn y rhestr hir o enghreifftiau o weithgareddau, a gynhwyswyd o’r blaen ym Mharagraff 6.2.1, y gellid hawlio eu costau yn ôl.

**5.95.** Cynigiodd y Bwrdd gynnwys testun ychwanegol ym Mharagraffau 6.2.2 a 6.2.3 i egluro y bydd eitemau swyddfa sy’n costio £100 neu fwy’n parhau i fod yn eiddo i Gomisiwn y Senedd, a bod yn rhaid cael a chyflwyno tri dyfynbris ar gyfer eitemau sy'n costio £750 neu fwy. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb â darpariaethau mewn rhannau eraill o'r Penderfyniad.

**5.96.** Mae’r newidiadau a gyflwynwyd gan y Bwrdd yn cynnwys ailenwi'r lwfans “cyflenwi dodrefn swyddfa” y darperir ar ei gyfer ym Mharagraff 6.3 i’r “lwfans cychwyn swyddfa”, i roi adlewyrchiad gwell o’i ddiben.

**5.97.** Cynigiwyd newidiadau hefyd i Baragraff 6.4.5 sy’n ymwneud â chaffael cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Mae'r newidiadau a gynigiwyd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y broses y disgwylir i’r Aelodau ei dilyn er mwyn prynu cyfarpar TGCh.

**5.98.** Gofynnodd y Bwrdd am adborth ar newidiadau i adrannau 6.5 a 6.6 sy’n ymwneud â diogelwch swyddfa ac iechyd a diogelwch yn y drefn honno. Mae'r newidiadau a gynigiwyd yn cadarnhau y byddai costau sy'n codi y tu hwnt i'r terfynau a amlinellir yn yr adrannau hynny ar hyn o bryd yn cael eu talu o gronfeydd canolog, yn hytrach nag o lwfans yr Aelod unigol. Byddai hyn yn helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o’r ffordd y mae lwfansau o'r fath yn cael eu hariannu.

**5.99.** Yn ogystal, cynigiodd y Bwrdd rwymedigaethau llymach mewn perthynas â rhentu swyddfa. Byddai rhwymedigaethau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod sydd am rentu swyddfa yn ei etholaeth neu ei ranbarth fodloni gofynion megis cael prisiad a chyngor cyfreithiol ar y swyddfa a ddymunir, cyn y gellir gwneud hawliadau am ad-daliad o gostau rhentu'r swyddfa.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.100.** Mynegwyd pryderon mewn ymateb i'r cynigion sy’n ymwneud â'r Lwfans Costau Swyddfa a gyflwynwyd gan y Bwrdd yn Rhan un o'i adolygiad o'r Penderfyniad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau). Roedd pryderon o'r fath yn ymwneud yn fwy â geiriad penodol y newidiadau a gynigiwyd gan y Bwrdd na sylwedd y newidiadau a gynigiwyd. Yn gyffredinol, croesawodd yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad ar Ran un o’r adolygiad gynigion y Bwrdd, gan gynnwys cyflwyno gofynion llymach ar yr Aelodau wrth gaffael swyddfa ar rent.

**5.101.** Mewn ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd ar y Penderfyniad drafft llawn, nododd un Aelod wrthwynebiad i'r egwyddorion newydd ar gaffael swyddfa a gynigiodd y Bwrdd. Dadleuodd y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Aelodau sefydlu a rheoli eu swyddfa etholaethol neu ranbarthol fel y bo’n briodol yn eu barn hwy.

**5.102.** Nododd Comisiwn y Senedd y gall fod yn ddefnyddiol i’r Aelodau, yn ogystal â swyddogion sy'n gweinyddu hawliadau, gael mwy o eglurder ynghylch y ddau faes cyllido yn y Penderfyniad drafft sy'n darparu ar gyfer cymorth i ymgysylltu ag etholwyr. Mae rhai

darpariaethau ym Mhennod 6 yn darparu lwfansau i dalu am ymgysylltu ag etholwyr. Mae'r un peth yn wir am y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu y darperir ar ei chyfer ym Mhennod 7 (Cymorth Staffio i'r Aelodau). Tynnodd y Comisiwn sylw at y posibilrwydd ar gyfer gorgyffwrdd yn nibenion y darpariaethau hyn a galwodd am ragor o eglurder.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.103.** Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr egwyddorion newydd a gynigir ar swyddfa'n briodol er mwyn cyflawni'r ddau nod, sef sicrhau llety addas i'r Aelodau a gwerth am arian.

**5.104.** Cytunodd y Bwrdd â Chomisiwn y Senedd y dylid ymdrin â'r posibilrwydd ar gyfer gorgyffwrdd yn nibenion y darpariaethau gwahanol sy'n ymwneud ag ymgysylltiad yr Aelodau ag etholwyr. Felly, mae geiriad ychwanegol wedi'i fewnosod ym Mhennod 7 mewn perthynas â'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, er mwyn ei gwneud yn glir, er y caniateir defnyddio'r gronfa hon i gaffael gwaith allanol i greu cynnwys wedi'i anelu at etholwyr, na chaniateir defnyddio'r gronfa i dalu am gostau lledaenu gwybodaeth o'r fath. Mae hyn yn nodi gwahaniaeth clir rhwng dibenion y darpariaethau gwahanol dan sylw. Cytunodd y Bwrdd y dylid adolygu effeithiolrwydd y newidiadau hyn i eiriad y Penderfyniad maes o law.

**5.105.**Awgrymodd Comisiwn y Senedd newid bach i eiriad Paragraff 6.2.2 i egluro bod yr holl eitemau swyddfa y telir amdanynt gan y Penderfyniad yn parhau i fod yn eiddo i Gomisiwn y Senedd, ni waeth beth yw eu cost. Cytunodd y Bwrdd i ddiwygio'r paragraff hwn fel yr awgrymwyd.

**5.106.**O ran adran 6.4 (Cyflenwyr cymeradwy offer a deunyddiau ysgrifennu), dadleuodd Grŵp Plaid Cymru y dylai'r Aelodau gael defnyddio'r lwfans deunydd ysgrifennu canolog i brynu eitemau gan gyflenwyr swyddfa lleol yn hytrach na chan gyflenwyr a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Senedd yn unig. Ar hyn o bryd, mae Comisiwn y Senedd yn dal y gyllideb sy'n talu am ddeunydd ysgrifennu'r Aelodau. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau â Chomisiwn y Senedd ynghylch trosglwyddo'r gyllideb hon o gyllideb y Comisiwn i fod yn rhan o'r gyllideb ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Penderfynodd y Bwrdd y dylid trafod y mater a godwyd pan gaiff y gyllideb ei throsglwyddo o'r Comisiwn i'r Penderfyniad ac na ddylid gwneud newidiadau i'r Penderfyniad ar hyn o bryd. Pe bai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo, byddai darpariaethau neu newidiadau newydd i'r Penderfyniad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.107.**Amlinellodd yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb y dylai’r egwyddor ar hygyrchedd swyddfa Aelod, y mae'n rhaid i’r Aelodau ei dilyn wrth gaffael swyddfa, fod yn egwyddor annibynnol oherwydd ei phwysigrwydd, yn hytrach na'i chynnwys mewn egwyddor ehangach sy'n ymwneud â diogelwch swyddfa. Cytunodd y Bwrdd a gwahanodd y ddwy egwyddor.

**5.108.**Awgrymodd yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb hefyd y dylai'r Penderfyniad ganiatáu ar gyfer 'addasiadau rhesymol' i swyddfeydd megis creu ystafell weddïo neu ystafell dawel pan fo angen. Awgrymodd yr un asesiad y dylai Pennod 6 ganiatáu ad-dalu costau cyfieithu a dehongli a ysgwyddir at ddiben ymgysylltu ag etholwyr. Mae’r Bwrdd o’r farn bod y darpariaethau ym Mhennod 6 yn ddigon eang er mwyn caniatáu ad-dalu costau o'r fath, ac na ddylid rhestru'r dibenion penodol y caniateir defnyddio'r lwfans hwn ar eu cyfer oherwydd y risg y gellid ystyried bod rhestr o'r fath yn gynhwysfawr. Yn hytrach, gofynnodd y Bwrdd i’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau egluro yn ei gyngor i'r Aelodau y caniateir defnyddio'r Lwfans Costau Swyddfa at ddibenion o’r fath. Gallai costau ymgysylltu ag etholwyr drwy ddehonglwr iaith arwyddion gael eu hawlio o dan y Bennod 3A newydd ynghylch cymorth ychwanegol i’r Aelodau.

## Pennod 7: Cymorth staffio i’r Aelodau

**5.109.** Mae'r Penderfyniad yn darparu lwfansau i Aelodau unigol a phleidiau gwleidyddol dalu costau cyflogi staff. Mae Pennod 7 o’r Penderfyniad yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau unigol dalu am staff, a rheolau ar ddefnyddio'r lwfansau hyn.

### *Crynodeb o gynigion y Bwrdd*

**5.110.**Yn ystod y Bumed Senedd, mae'r Bwrdd hefyd wedi ceisio cyflwyno mwy o hyblygrwydd i helpu’r Aelodau, fel cyflogwyr, i ymdrin â phryderon o ran capasiti a’r gallu i ddenu pobl i ymgeisio ar gyfer swyddi a hysbysebir (gweler paragraffau 3.8 - 3.19 am ragor o fanylion).

**5.111.**Fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad, cynigiodd y Bwrdd ragor o newidiadau i'r darpariaethau ar gymorth staffio i’r Aelodau.

**5.112.**Cynigiwyd Paragraff 7.1.1A newydd sy’n egluro bod pob Aelod yn gyflogwr a bod y Bwrdd yn darparu tâl, telerau ac amodau safonol i’r holl staff cymorth. Diben y paragraff newydd hwn yw rhoi mwy o eglurder ar rolau priodol yr Aelodau a'r Bwrdd wrth gyflogi staff cymorth.

**5.113.**Ym marn y Bwrdd, dylai fod gan yr Aelodau ddisgresiwn i wario eu lwfansau staffio yn y ffordd fwyaf addas i'w hanghenion unigol fel cynrychiolwyr etholedig. Yn unol â hynny, cynigiodd y Bwrdd y dylai'r Aelodau fod yn gyfrifol am benderfynu ar gyflog cychwynnol eu staff cymorth, o fewn y graddfeydd cyflog a benderfynir gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd wedi nodi bod yn rhaid i’r Aelodau ddilyn canllawiau’r Bwrdd ar feini prawf cyflog cychwynnol wrth arfer y disgresiwn hwn (gweler Paragraff 7.2 o’r Penderfyniad). Nid oedd hyblygrwydd o'r fath i benderfynu ar gyflogau cychwynnol yn bodoli o'r blaen. Yn hytrach, roedd yn rhaid cyflwyno achos i Gomisiwn y Senedd dros wneud hynny.

**5.114.**Mae'r Bwrdd yn credu bod cynnig cyfleoedd profiad gwaith mewn swyddi gwleidyddol yn bwysig er mwyn agor mynediad at wleidyddiaeth, yn enwedig i'r rhai na fyddent, fel rheol, yn ystyried gwleidyddiaeth fel opsiwn gyrfa dichonol. Ar yr un pryd, mae’n rhaid cynnig cyfleoedd o'r fath yn briodol er mwyn osgoi perygl posibl o gamfanteisio. Mae'r rhain yn cynnwys rheol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i’r Aelodau ddilyn Polisi Lleoliadau Di-dâl newydd wrth ddarparu lleoliadau di-dâl yn eu swyddfeydd, megis interniaethau. Bydd polisi o'r fath yn sicrhau bod y ddau barti dan sylw yn cytuno ar ddiben ac amodau lleoliadau o’r fath. Cynigiwyd testun ychwanegol ym Mhennod 7 y dylai’r holl leoliadau gwaith o bedair wythnos neu fwy fod ar

gyflog sy'n cyfateb i gyflog band tri ar y raddfa gyflog ar gyfer staff cymorth, o leiaf, ar wahân i'r rhai a drefnir drwy sefydliadau addysgol.

**5.115.**Fel y nodwyd ym Mharagraff 3.13 uchod, cymerodd y Bwrdd gamau yn ystod y Bumed Senedd i atal yr Aelodau rhag cyflogi aelodau o'u teulu eu hunain ar ôl 1 Ebrill 2019. Ym Mharagraff 7.6.2 o'r Penderfyniad, cynigiodd y Bwrdd destun ychwanegol i egluro y bydd staff cymorth sy'n aelodau o’r teulu, a gafodd eu recriwtio cyn 1 Ebrill 2019, yn parhau i gael codiadau cyflog cynyddrannol a blynyddol er tegwch.

**5.116.** Ar sail trafodaethau â staff cymorth a’r modd y mae’r Bwrdd yn cymharu'r Penderfyniad ag arferion cyflogaeth mewn mannau eraill, cynigiwyd newid i Baragraff 7.10.2 i gadarnhau y caiff staff cymorth ofyn am un blaenswm o'u cyflog fesul blwyddyn, yn unol â chanllawiau tîm Cyflogres Comisiwn y Senedd.

**5.117.**Hefyd, cynigiodd y Bwrdd ddiwygiad i'r Lwfans Staffio Dros Dro a nodwyd ym Mharagraff 7.12 o’r Penderfyniad. Mae'r diwygiad yn egluro, pan fydd Aelod yn gwneud hawliad am Lwfans Staffio Dros Dro mewn perthynas ag aelod parhaol o staff sy’n absennol o'r gwaith oherwydd salwch, fod yn rhaid i'r Aelod ddilyn y broses briodol i gofnodi'r absenoldeb fel y nodwyd yn y Weithdrefn Absenoldeb oherwydd Salwch ar gyfer absenoldebau tymor byr neu hir (Paragraff 7.12.3). Unwaith eto, byddai hyn yn helpu i gysoni bod arferion cyflogaeth yr Aelodau â’r arfer da sefydledig a sicrhau gonestrwydd a gwerth am arian.

**5.118.**Mae gan yr Aelodau fynediad at Gronfa Polisi, Cyfathrebu ac Ymchwil y gellir ei defnyddio i ofyn am gyngor neu gymorth arbenigol ar faterion sy'n ymwneud â'u gwaith. Roedd y Bwrdd yn teimlo nad oes digon o wybodaeth yn y Penderfyniad am y gronfa hon a'i diben. Felly, cynigiodd gyflwyno cyfres o amodau ar ddefnyddio’r gronfa, (sydd wedi deillio o bolisi presennol y Bwrdd sy'n sail i ddefnyddio'r gronfa, a gyhoeddir ar wahân i'r Penderfyniad) a nodir ym Mharagraff 7.14. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff y gronfa ei defnyddio'n briodol ac nid at ddibenion y darperir ar eu cyfer gan lwfansau eraill y mae’r Aelodau'n gymwys i’w cael.

**5.119.**Mae cynigion eraill ar gyfer newidiadau i Bennod 7 yn cynnwys darpariaeth i staff cymorth gael amser i ffwrdd o’r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus a chymhwysedd uwch ar gyfer codiad 100 y cant o dâl dileu swydd statudol pan gaiff swyddi staff cymorth eu dileu (gweler Paragraff 7.13 o'r Penderfyniad).

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.120.**Yn gyffredinol, cafwyd croeso i gynigion y Bwrdd ynghylch cymorth staff yr Aelodau.

**5.121.**Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Ran dau o'r adolygiad (Cymorth i’r Aelodau ac i Bleidiau Gwleidyddol), cafwyd cefnogaeth gan y rhai a wnaeth sylwadau ar y cynigion i roi mwy o hyblygrwydd i’r Aelodau benderfynu ar gyflogau eu staff o fewn y graddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt.

**5.122.**Mewn ymateb i'r un ymgynghoriad, mynegwyd rhai pryderon ynghylch y bwriad i ddarparu codiad 100 y cant mewn taliadau dileu swyddi. Yn benodol, nodwyd pryder ynghylch gorfod talu codiad o'r fath o lwfansau cyflogau staff presennol yr Aelodau. Hefyd, mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft llawn, awgrymodd Grŵp Plaid Cymru feini prawf ychwanegol ar gyfer cymhwysedd ar gyfer y codiad yn y taliad dileu swydd, er enghraifft staff sy’n dod yn ddi-waith oherwydd salwch Aelod.

**5.123.**Codwyd rhai cwestiynau ynghylch cynigion y Bwrdd mewn perthynas â lleoliadau gwaith, h.y. y dylid talu am leoliadau pedair wythnos neu fwy. Wrth ymdrin â phryderon o’r fath yn Rhan un o’r adolygiad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau), ailadroddodd y Bwrdd nad oedd y cynigion perthnasol yn gymwys i leoliadau a drefnwyd drwy sefydliadau addysg uwch.

**5.124.**Eglurodd Grŵp Llafur Cymru ei farn y dylai'r Bwrdd ailystyried y cyllidebau staff cymorth sydd ar gael i’r Aelodau a grwpiau’r pleidiau gwleidyddol a'r cyflogau sydd ar gael i staff cymorth. Dadleuodd y grŵp fod gwaith Aelodau o'r Senedd yn debyg i waith Aelodau Seneddol o ran maint a natur eu cyfrifoldebau, ond bod gan Aelodau Seneddol gyllidebau staffio llawer mwy ac y telir cyflogau sylweddol uwch i’w staff cymorth.

**5.125.**Yn ystod ymgynghoriad y Bwrdd ar y Penderfyniad drafft llawn, ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llefarydd Tŷ’r Cyffredin y byddai cyllidebau staffio Aelodau Seneddol yn cael eu cynyddu £20 miliwn ar y cyd ar gyfer 2020-2021, gyda phob Aelod yn cael £4,000 ychwanegol i dalu costau hyfforddi staff, iechyd a lles. Cyfeiriodd Grŵp Llafur Cymru at y cynnydd hwn wrth ddadlau dros gynnydd yng nghyllidebau staff cymorth Aelodau o’r Senedd a lefelau cyflogau’r staff cymorth. Dadleuodd Grŵp Plaid Cymru hefyd dros gynyddu cyflogau staff cymorth.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.126.**Rhwng mis Hydref 2017 a mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad manwl o strwythur cyflogau a gyrfaoedd staff cymorth yr Aelodau.[11] Trafodwyd lwfansau staffio Aelodau unigol, grwpiau pleidiau gwleidyddol a chyflogau staff cymorth fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

[11] https://busnes.senedd.cymru/documents/s91061/Review%20of%20Staffing%20Support.pdf

Helpodd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw i lywio'r gwaith o baratoi'r darpariaethau yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd. Nid oedd y Bwrdd yn bwriadu cynnal adolygiad arall o'r lwfansau staffio a chyflogau staff cymorth mor fuan ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau yn 2019.

**5.127.**Nododd y Bwrdd fod lwfansau staffio Aelodau o Senedd y DU yn sylweddol uwch na'r lwfansau y darperir ar eu cyfer gan y Penderfyniad. Fodd bynnag, mae cyflogau cyfartalog yn Llundain gryn dipyn yn uwch nag yng Nghymru a fydd yn rhoi cyfrif am rywfaint o'r gwahaniaeth, o leiaf, yn y lwfansau hyn. Mae'r lwfansau staffio a ddarperir ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn uwch na'r rhai sydd ar gael i Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, a all ddarparu cymhariaeth decach o ystyried llwyth gwaith, cyfrifoldebau a lefelau cyflog.

**5.128.**Nododd y Bwrdd hefyd, yn ychwanegol at y lwfansau a ddarperir iddynt yn benodol at ddibenion talu cyflogau staff, y caniateir i Aelodau o'r Senedd drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u lwfans costau swyddfa ac unrhyw danwariant yn eu Cronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i'w Lwfansau Gwariant Staffio priodol i'w wario ar gyflogau staff (fel yr amlinellir yn y darpariaethau trosglwyddo a amlinellir yn adran 6.8 o’r Penderfyniad). Nid yw'r math hwn o ddarpariaeth drosglwyddo ar gael i Aelodau etholedig yn Holyrood na San Steffan.

**5.129.**Ar ôl trafod y mater hwn, penderfynodd y Bwrdd beidio â gwneud newidiadau i lwfansau staffio’r Aelodau a chyflogau staff cymorth y tu hwnt i'r addasiadau blynyddol y darperir ar eu cyfer gan y trefniadau mynegeio gyda’r enillion canolrifol gros yng Nghymru.

**5.130.**Ar yr un pryd, cydnabu'r Bwrdd ei bod yn debygol y bydd angen adolygiad o lwfansau staffio a chyflogau staff cymorth os bydd y Senedd yn penderfynu cynyddu nifer ei Haelodau. Ar hyn o bryd, mae un o bwyllgorau’r Senedd yn trafod a ddylid cynyddu nifer yr Aelodau, a disgwylir iddo gyflwyno adroddiad yn ddiweddarach eleni.

**5.131.**O ran y codiad 100 y cant mewn taliadau dileu swyddi, mae’r Bwrdd o’r farn bod y meini prawf cymhwysedd a nodir ym Mharagraff 7.13.4 o'r Penderfyniad drafft yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer codiad mewn ystod eang o amgylchiadau pan fo Aelod yn rhoi’r gorau i’w sedd yn annisgwyl. Rhai o'r amgylchiadau ychwanegol pan ddylid darparu codiad a awgrymodd ymatebwyr oedd amgylchiadau pan fo staff cymorth yn rhoi'r gorau i'w swyddi o'u gwirfodd, gan gynnwys staff cymorth sy'n gadael eu swyddi oherwydd nad ydynt am weithio i Aelod penodol mwyach. Mae’r Bwrdd o’r farn na ddylid darparu codiad pan fo staff cymorth yn penderfynu gadael eu swydd ac mai dim ond ar gyfer achosion anwirfoddol o ddileu swydd y dylid darparu'r codiad.

**5.132.**Mewn ymateb i’r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft llawn, dadleuodd Chwarae Teg, yn sgil penderfyniad y Bwrdd i dalu am leoliadau gwaith pedair wythnos neu hwy, y dylid cynyddu cyllidebau staffio’n unol â hynny, fel nad yw’r Aelodau’n osgoi cynnig cyfleoedd o'r fath oherwydd y canlyniadau ar eu cyllidebau staffio. Fodd bynnag, yn unol â chynigion y Bwrdd, mae’n rhaid talu'r rhai sydd ar leoliadau gwaith pedair wythnos neu hwy. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn golygu y byddent yn dod yn aelodau staff ychwanegol i wneud gwaith ar ran yr Aelod sy'n eu cyflogi. Nid argyhoeddwyd y Bwrdd y dylid cynyddu lwfansau staffio’r Aelodau at y diben hwn.

**5.133.**Dywedodd Grŵp Plaid Cymru ei bod yn aneglur a oes gan staff cymorth Aelodau sy'n teithio i Gaerdydd o etholaeth neu ranbarth hawl i hawlio am ad-daliad llety dros nos ac, os oes, a oes cyfyngiad i'r swm y caniateir ei hawlio (fel sydd ar gyfer hawlio costau teithio). Penderfynodd y Bwrdd fod angen trafod y mater hwn yn fanwl ac na ellid gwneud hynny o fewn yr amser sydd ar gael i'r Bwrdd hwn. Felly, penderfynwyd y dylid nodi hyn fel mater y bydd angen i’r Bwrdd nesaf efallai ei drafod, yn dilyn ei benodi’n ddiweddarach eleni.

### *Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth*

**5.134.**Mae Paragraff 7.12.2 o'r Penderfyniad yn nodi amgylchiadau pan gaiff yr Aelodau wneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro, yn nodweddiadol pan na all deiliad swydd barhaol weithio am resymau amrywiol. Awgrymodd yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb i'r Bwrdd ystyried cynnwys absenoldeb gofalwr, absenoldeb sy’n ymwneud ag anabledd ac absenoldeb tosturiol estynedig fel rhesymau ychwanegol i ganiatáu i Lwfans Staffio Dros Dro gael ei hawlio. Cytunodd y Bwrdd i wneud newidiadau i'r Penderfyniad er mwyn caniatáu i’r Lwfans Staffio Dros Dro gael ei hawlio ar gyfer staff cymorth sy'n absennol o'r gwaith oherwydd absenoldeb tosturiol estynedig. Byddai trefnu bod rhywun yn cyflenwi swydd staff cymorth sy’n absennol oherwydd anabledd yn cael ei ganiatáu o dan y darpariaethau presennol yn y Penderfyniad. Ar hyn o bryd, nid yw staff cymorth yr Aelodau’n gymwys i gael absenoldeb gofalwr. Roedd y Bwrdd yn teimlo y gallai fod yn werth i’r Bwrdd nesaf drafod y mater hwn ar ôl ei benodi.

## Pennod 8: Cymorth i bleidiau gwleidyddol

**5.135.**Mae Pennod 8 yn nodi’r cymorth ariannol a ddarperir i bleidiau gwleidyddol, yn bennaf at ddibenion cyflogi staff, i’w helpu gyda’u gwaith yn y Senedd. Mae'r cymorth ariannol a ddarperir i bleidiau gwleidyddol at y diben hwn yn talu cyflogau staff a gyflogir gan arweinydd y blaid, nid staff a gyflogir gan Aelodau unigol a delir o gyllidebau staffio Aelodau unigol. Fodd bynnag, mae'r Aelodau nad ydynt yn rhan o grŵp plaid wleidyddol yn y Senedd hefyd yn cael lwfans ychwanegol bach a ddefnyddir i gynyddu eu lwfans staffio. Hefyd, gellir defnyddio'r lwfans sydd ar gael i bleidiau i dalu costau teithio staff a chost caffael cyfarpar swyddfa.

**5.136.**Mae Pennod 8 yn nodi graddfeydd cyflog ar gyfer staff a gyflogir gan arweinydd y grŵp. Caiff gyflogi staff mewn cyfuniad o’r bandiau ar yr amod nad yw cyflogau cyfunol yr holl staff cymorth sy’n daladwy mewn un flwyddyn ariannol yn fwy na chyfanswm y lwfans sydd ar gael i’r blaid honno. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfanswm y lwfans sydd ar gael ar gyfer pob plaid a gynrychiolir yn y Senedd wedi'i nodi ym Mhennod 8, ynghyd â'r lwfansau eu hunain.

**5.137.**I raddau helaeth, mae'r darpariaethau ym Mhennod 8 ar rôl y cyflogwr, penodiadau cyfnod penodol, cyflogau cychwynnol, amser i ffwrdd o’r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus a threfniadau ar gyfer codiadau tâl dileu swydd yn adlewyrchu'r rhai ym Mhennod 7 sy’n gymwys i staff cymorth yr Aelodau.

### *Crynodeb o gynigion y Bwrdd*

**5.138.**Dim ond nifer gyfyngedig o newidiadau sylweddol i Bennod 8 a gynigiodd y Bwrdd ar gyfer ymgynghoriad.

**5.139.**Awgrymodd y Bwrdd y dylid ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gael tri dyfynbris ar gyfer gwariant ar eitemau swyddfa sy’n costio £750 neu ragor, a rhwymedigaethau contractiol sydd â gwerth £750 neu ragor. Nod y cynnig hwn yw sicrhau gwerth gwell am arian i'r trethdalwr wrth gaffael eitemau o'r fath.

**5.140.**Hefyd, cynigiwyd y dylai'r Aelodau sy'n cyflogi staff cymorth plaid, h.y. arweinwyr pleidiau, gael disgresiwn i benderfynu cyflogau cychwynnol staff, o fewn y graddfeydd cyflog sefydledig. Byddai hyn yn adlewyrchu'r un newid a gynigiwyd ym Mhennod 7 mewn perthynas â staff cymorth a gyflogir gan Aelodau unigol.

**5.141.**Fel y cynigiwyd mewn perthynas â staff cymorth Aelodau unigol, awgrymodd y Bwrdd y dylai fod gan staff cymorth pleidiau hawl i godiad 100 y cant mewn tâl dileu swydd statudol, os caiff eu swyddi eu dileu oherwydd ailstrwythuro swyddfa neu oherwydd bod y blaid sy’n eu

cyflogi’n colli nifer yr Aelodau sy’n angenrheidiol er mwyn ffurfio grŵp plaid (dim ond pleidiau gwleidyddol sydd â thri Aelod neu ragor yn y Senedd sy'n gymwys i gael y lwfansau sydd ar gael i bleidiau yn ôl y Penderfyniad).

**5.142.** Gwnaed y newid olaf a gynigiwyd yn y bennod hon i Baragraff 8.7A sy'n egluro at ba ddibenion y caniateir defnyddio'r lwfans polisi ac ymchwil sydd ar gael i bleidiau. Cyfeiriodd y Penderfyniad blaenorol at y lwfans hwn fel y “Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu”. Ar gyfer pleidiau gwleidyddol, nid oes cronfa bwrpasol o'r fath; yn lle hynny, gallant ddefnyddio pa danwariant bynnag sydd yn eu cyllidebau cyflog staff i gomisiynu gwaith ymchwil polisi. Mae'r canllawiau ar ddefnyddio'r lwfans hwn yn nodi na chaiff pleidiau gwleidyddol ei ddefnyddio at ddibenion cyfathrebu. Felly, cynigiwyd y dylid ailenwi'r adran berthnasol yn y Penderfyniad fel “Polisi ac Ymchwil”, er eglurder. Hefyd, cynigiodd y Bwrdd y dylid cynnwys rhestr o ddibenion penodol y caniateir defnyddio tanwariant o'r fath atynt.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.143.**Mewn ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd ar Ran dau o'r adolygiad (Cymorth i’r Aelodau ac i Bleidiau Gwleidyddol), roedd y rhai a wnaeth sylwadau ar newidiadau i Bennod 8 yn cefnogi'r syniad y dylid rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i arweinwyr pleidiau benderfynu cyflogau cychwynnol staff cymorth. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas â Phennod 7, roedd rhai o'r farn y dylid darparu canllawiau ar yr amgylchiadau pan fyddai'n briodol darparu cyflog cychwynnol uwchlaw'r isaf yn y raddfa gyflog berthnasol.

**5.144.**Ni chafwyd cefnogaeth gan yr holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad i godiad 100 y cant mewn taliadau dileu swyddi staff. Awgrymodd eraill amgylchiadau ychwanegol pan ddylid caniatáu'r codiad.

**5.145.**Mewn ymateb i'r cynnig i ddarparu rhagor o eglurder ar ddefnyddio tanwariant staffio at ddibenion polisi ac ymchwil, nododd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y canlynol:

> Although clarification is welcome on what the Political Party Groups can spend their remaining staffing budget on, the Welsh Conservative Group is concerned that changes to this Fund (PRCF) may have an adverse impact on its work. Notably, the Welsh Conservative Group attends national and regional events to engage with stakeholders and assist it in undertaking research and policy work. Such activities help to promote the work of the Assembly, educate the public about devolved responsibilities and require communication materials and signs

etc. to be printed. The Group does not believe that this work should be curtailed if the Fund is changed.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.146.**Unig fwriad y newidiadau i adran 8.7A a gynigiodd y Bwrdd yw rhoi rhagor o eglurder ynghylch diben lwfans polisi ac ymchwil pleidiau. Er y caniateir ariannu gwaith polisi ac ymchwil o danwariant yng nghyllidebau staffio pleidiau, ni chaniateir ariannu gwaith cyfathrebu pleidiau yn y modd hwn. Mae’r newidiadau a gynigiodd y Bwrdd i adran 8.7A yn ceisio gwneud hyn yn gliriach. Nid yw cwmpas yr hyn y gellir ei ariannu fel arall o'r lwfans hwn wedi newid. Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r newid a gynigiwyd i deitl y lwfans hwn.

**5.147.**Dadleuodd Grŵp Plaid Cymru dros ragor o fesurau diogelu cyflogaeth i staff cymorth plaid, yn benodol, diogelwch gwell rhag colli cyflogaeth o bosibl o ganlyniad i newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol pleidiau. Dan amgylchiadau o'r fath, mae’r Bwrdd o’r farn bod y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn cynnig mesurau diogelu cyflogaeth i staff cymorth plaid. Fel y cyfryw, nid oedd y Bwrdd yn teimlo y dylid diwygio'r Penderfyniad mewn perthynas â'r mater hwn.

**5.148.**Ar gyfer Penderfyniad 2020-2021, newidiodd y Bwrdd ei ddull ar gyfer penderfynu ar gyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Gan gydnabod bod y lwfans hwn yn cynnwys dwy elfen wahanol, un yn darparu ar gyfer cyflogau staff cymorth a'r llall ar gyfer costau teithio staff a chyfarpar swyddfa, penderfynodd y Bwrdd y dylid addasu'r elfen gyntaf yn flynyddol yn unol â'r Arolwg o Oriau ac Enillion, ac y dylai'r olaf gael ei haddasu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r lwfans hwn yn flynyddol yn ystod y Chweched Senedd.

# Pennod 9: Aelodau sy'n gadael eu swyddi

**5.150.**Mae'r bennod hon yn nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd sydd wedi colli eu sedd yn y Senedd, er enghraifft yn dilyn etholiad, neu sydd wedi'u gorfodi i ymddeol. Mae hyn yn cynnwys Lwfans Dirwyn i Ben i alluogi personau o'r fath i gwblhau unrhyw waith a oedd ar y gweill cyn iddynt golli eu sedd, Grant Ymaddasu a Grant Ymddeol oherwydd Salwch.

### *Crynodeb o gynigion y Bwrdd*

**5.151.**Dim ond newidiadau mân a gynigiodd y Bwrdd i'r bennod hon.

**5.152.**Cynigiwyd newid i Baragraff 9.1.2 i egluro'r dyddiad pan fydd Aelod sy'n sefyll i'w ailethol, ac yn colli, yn peidio â bod yn Aelod, fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

**5.153.**Wrth adolygu darpariaethau yn y bennod hon, trafododd y Bwrdd hefyd y fantais a ddaw o gydgrynhoi'r darpariaethau sy'n ymwneud â Grantiau Ymaddasu mewn un paragraff. Felly, cynigir bod elfen y Grant Ymaddasu sydd ar gael i ddeiliaid swyddi (dan Baragraff 9.6 o'r Penderfyniad blaenorol) yn cael ei symud i Baragraff 9.3.5.

**5.154.**Yn flaenorol, nododd Pennod 4 o'r Penderfyniad drefniadau trosiannol a oedd yn gymwys i nifer gyfyngedig o Aelodau hirsefydlog. Gan fod y Bwrdd wedi penderfynu rhoi terfyn ar drefniadau trosiannol o'r fath o'r blaen, cynigiodd ddileu'r cyfeiriadau at drefniadau o'r fath yn y bennod hon.

### *Barn am gynigion y Bwrdd*

**5.155.**Ni chafwyd sylwadau ar y newidiadau a gynigiodd y Bwrdd i Bennod 9 yn ystod yr adolygiad.

### *Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a drafododd y Bwrdd*

**5.156.**Derbyniodd y Bwrdd y newidiadau a gynigiwyd i Bennod 9.

## Materion eraill a godwyd yn ystod yr adolygiad

**5.157.**Yn ystod yr adolygiad, codwyd materion amrywiol i'r Bwrdd eu trafod nad oeddent yn ymwneud yn benodol ag unrhyw un o'r newidiadau a gynigiwyd i'r Penderfyniad.

**5.158.**Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Ran Un o'r adolygiad (Gwariant ar Lety Preswyl, Siwrneiau’r Aelodau a Chostau Swyddfa’r Aelodau a Chydraddoldeb), galwodd un ymatebydd am gymorth ychwanegol i’r Aelodau mewn ardaloedd â chostau rhentu swyddfa uchel. Fodd bynnag, ni lwyddodd y Bwrdd i nodi patrwm penodol o ran costau rhentu swyddfa ar draws Cymru y gellid rhoi cyfrif amdanynt yn y darpariaethau perthnasol yn y Penderfyniad. Byddai'r Bwrdd yn ystyried ceisiadau am gymorth ychwanegol drwy'r ddarpariaeth treuliau eithriadol i dalu costau rhentu swyddfa uwch na'r arfer.

**5.159.**Mater arall a godwyd oedd y dylai'r Aelodau allu talu biliau swyddfa a llety preswyl drwy ddebyd uniongyrchol. Fodd bynnag, gan fod hyn yn fater gweinyddol, nid mater i'r Bwrdd yw penderfynu sut y dylid talu biliau o'r fath.

**5.160.** Mewn llythyr at y Bwrdd, gofynnodd Comisiynydd Safonau dros dro y Senedd i'r Bwrdd ystyried cynnwys gofyniad yn y Penderfyniad i staff cymorth gofnodi eu horiau gwaith. Mae'r Comisiynydd o'r farn y byddai hyn yn annog staff cymorth i beidio â gwneud gwaith nad yw’n ymwneud â'r Senedd (h.y. gwaith ar ran eu plaid wleidyddol) yn ystod oriau gwaith y telir amdanynt dan y Penderfyniad. Byddai hyn yn nodi gwahaniaeth clir rhwng gwaith a wneir i ymgymryd â dyletswyddau Aelodau o'r Senedd a gweithgarwch gwleidyddol. Roedd y Bwrdd yn teimlo bod y rheolau’n glir nad oedd y Penderfyniad yn caniatáu i adnoddau, sy'n cynnwys amser staff, gael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch gwleidyddol. Nid oedd yn teimlo bod rhagor o gamau y gellid eu cymryd i ymdrin ag achosion posibl o dorri’r rheol bwysig hon drwy’r Penderfyniad, ond cytunwyd i drafod y mater ymhellach â’r Comisiynydd Safonau dros dro a Chomisiwn y Senedd.

**5.161.**Awgrymodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig i ddarparu cymorth ariannol i'r rhai y mae arnynt ei angen er mwyn gallu sefyll yn etholiadau’r Senedd ac etholiadau eraill. Gwnaethant awgrymu y dylai cronfa o'r fath gefnogi menywod anabl a menywod duon a lleiafrifoedd ethnig ar incwm isel i sefyll etholiad. Gofynnodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i'r Bwrdd drafod y mater hwn â Llywodraeth Cymru. Gan nad yw hyn yn fater sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Penderfyniad, ni thrafododd y Bwrdd y mater hwn yn fanwl.

# 6. Costau'r Penderfyniad ar gyfer y Senedd yn 2021-2026

**6.1.** Rhagwelir y bydd Penderfyniad y Bwrdd ar gyfer 2021-26 yn costio £16.87 miliwn yn 2021-2022. Cynnydd o oddeutu 4.3 y cant (£700,000) yw hyn o'i gymharu â 2020-21 (blwyddyn lawn olaf y Bumed Senedd), a’r codiadau cyflog a ragwelir sy’n rhoi cyfrif am y rhan fwyaf ohono. Dangosir amlinelliad o lle y daw’r costau ychwanegol yn y tabl isod. Byddai costau blynyddol yn y blynyddoedd dilynol yn cael eu cynyddu ar yr amod bod Bwrdd yn y dyfodol yn gweithredu cynyddrannau blynyddol neu newidiadau i dâl a lwfansau.

**6.2.** Yn y gorffennol, gosodwyd cyllidebau staff ar y gost uchaf posibl. Fodd bynnag, mae’r patrymau gwariant yn y Bumed Senedd wedi dangos bod y costau'n tueddu i fod yn is, yn bennaf oherwydd swyddi gwag staff cymorth. Yn ystod y Bumed Senedd, cyflwynwyd darpariaeth swyddi gwag er mwyn lleihau cyfanswm y gyllideb staff i adlewyrchu gwariant gwirioneddol yn well. Er y gall y Chweched Senedd ddilyn patrwm gwahanol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd yr Aelodau'n cymryd amser i recriwtio staff ar ôl yr etholiad, felly mae darpariaeth swyddi gwag miliwn o bunnau wedi'i chynnwys i ostwng y gyllideb a ddarperir ar gyfer staff cymorth yn y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl yr etholiad a'i addasu yn y blynyddoedd dilynol fel y bo'n briodol.

### Costau amcangyfrifedig y Penderfyniad ym mlwyddyn olaf y Bumed Senedd a blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd

| | 2020-21 (amcangyfrifon) | 2021-22 (amcangyfrifon) |
|---|---|---|
| Cyflogau'r Aelodau ac argostau | £6,544,000[12] | £6,740,000 |
| Cyflogau staff cymorth ac argostau | £8,791,000 | £9,054,000 |
| Lwfansau a chostau swyddfa | £1,831,000 | £2,070,000 |
| Darpariaeth swyddi gwag a throsiant staff | (£1,000,000) | (£1,000,000) |
| Cyfanswm | **£16,165,000** | **£16,865,000**[13] |

[12] Mae'r ffigur amcangyfrifedig hwn yn seiliedig ar gymhwyso addasiad blynyddol cyflogau’r Aelodau yn unol ag enillion canolrifol gros yng Nghymru ar gyfer blwyddyn lawn rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu penderfyniad y Bwrdd ym mis Mawrth 2020 i ohirio cymhwyso'r addasiad hwn.

[13] Mae’r ffigur cyfanswm a ddangosir yma’n gywir. Nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y ffigurau unigol a ddangosir uchod yn union oherwydd bod y ffigurau hynny wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf. Y ffigur cyfanswm a ddangosir yma yw cyfanswm y ffigurau unigol hynny heb eu talgrynnu, yna wedi'i dalgrynnu ei hun i'r £1,000 agosaf.

**6.3.** Ceir amlinelliad o gostau newydd a'r modd y maent yn gymwys i benodau gwahanol o'r Penderfyniad drafft isod.

### Pennod 3: Taliadau'r Aelodau

**6.4.** Mae'r Bwrdd yn credu y gallai rhai costau ychwanegol bach ddeillio o newidiadau a wnaed i'r bennod hon. Yn benodol, gallai penderfyniad y Bwrdd i dalu deiliaid swyddi ychwanegol dros dro arwain at rai costau ychwanegol pe bai penodiadau i swyddi o'r fath yn cael eu gwneud yn ystod y Chweched Senedd h.y. Darpar Brif Weinidog, Darpar Gwnsler Cyffredinol, Llywydd dros dro a Chadeirydd Pwyllgor dros dro. Mae natur a hyd penodiadau o'r fath, yn naturiol, yn anrhagweladwy ac anaml y maent wedi codi yn y gorffennol. Felly, mae amcangyfrif enwol, sef £13,741, wedi'i gynnwys yn y ffigurau h.y. cost talu Cadeirydd Pwyllgor dros dro am 12 mis yn ystod y Chweched Senedd.

**6.5.** Amcangyfrifir mai tua £6.74 miliwn fydd cost flynyddol gyfunol cyflogau ac argostau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ar ddechrau'r Chweched Senedd. Cynnydd o 3 y cant[14] yw hyn o'i gymharu â'r gost a ragwelir ar gyfer 2020-2021 (£6.54 miliwn).

### Pennod 3A: Cymorth ychwanegol

**6.6.** Bydd costau'r newidiadau i'r bennod hon yn dibynnu'n llwyr ar nifer yr Aelodau sy'n gwneud hawliadau am gymorth ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi gwneud rhai rhagdybiaethau ar sail data hanesyddol ac wedi amcangyfrif mai tua £83,000 fydd costau blynyddol y bennod hon.

**6.7.** Rhennir hyn fel a ganlyn:

- £5,000 am y cymorth ychwanegol mewn perthynas ag anableddau. Mae hyn £1,000 yn uwch na'r £4,000 a neilltuwyd o'r blaen ar gyfer y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad;
- £28,500 ychwanegol ar gyfer y cyfraniad tuag at gostau gofal;

[14] Gall y newid canran amcangyfrifedig hwn newid yn dilyn cyhoeddi ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar enillion canolrifol gros yng Nghymru yn ystod 2019-2020, y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

- £49,533 ychwanegol ar gyfer darparu adnodd ychwanegol i'r Aelodau ar absenoldeb rhiant. Mae'r ffigur amcangyfrifedig hwn yn seiliedig ar benodi un aelod ychwanegol o staff y flwyddyn ar y radd cyflog uchaf ar gyfer Uwch-gynghorydd.

## Pennod 7: Cymorth staffio i'r Aelodau a Phennod 8: Cymorth i bleidiau gwleidyddol

**6.8.** Ni ragwelir cynnydd mewn costau o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r penodau hyn. Amcangyfrifir mai tua £9.05 miliwn fydd y costau sy'n ymwneud â bodloni gofynion staffio'r Aelodau a phleidiau gwleidyddol yn 2021-2022 (y flwyddyn gyntaf pan fydd newidiadau o'r fath yn gymwys). Mae hyn 3 y cant yn uwch na chost amcangyfrifedig y ddarpariaeth hon yn 2020-21 (£8.8 miliwn), o ganlyniad i'r cyflogau uwch yn unol â mynegai amcangyfrifedig yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. At ddiben yr amcangyfrifon cost, yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, tybir mai 3 y cant fydd addasiad cyflogau'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2021-2022 (yn seiliedig ar gyflogau canolrifol gros yng Nghymru yn 2019-2020). Newid canran amcangyfrifedig yw hwn a gall newid yn dilyn cyhoeddi ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2019-2020, y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

# 7. Rhagolwg

**7.1.** Yn sgil ei adolygiad manwl o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-2026, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â’r Aelodau, eu staff a rhanddeiliaid a'r ymgynghoriadau amrywiol a gynhaliwyd, mae'r Bwrdd yn hyderus bod y Penderfyniad y mae wedi’i gyhoeddi’n addas at y diben. Mae'r newidiadau i'r Penderfyniad y cytunwyd arnynt ar gyfer 2021-2026 wedi'u seilio yng nghyd-destun Cymru, er enghraifft, yn y ffordd y caiff cyflogau'r Aelodau a'u staff eu haddasu'n flynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol heddiw, a bydd yn darparu cymorth ychwanegol sydd ei angen er mwyn lleihau'r rhwystrau i sefyll etholiad i'r Senedd.

**7.2.** Ar yr un pryd, mae’r Senedd yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym ac nid oes amheuaeth y bydd angen i'r Bwrdd newydd, sydd i'w benodi’n ddiweddarach eleni, adolygu a diwygio'r Penderfyniad yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Yn benodol, bydd angen i'r Bwrdd newydd sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer senedd genedlaethol y gall ei phwerau a'i chyfrifoldebau newid yn sylweddol yng Nghymru ar ôl Brexit pan fydd y Penderfyniad hwn yn gymwys.

**7.3.** Mae'r Bwrdd wedi tynnu sylw yn yr adroddiad hwn at feysydd y bydd angen i'r Bwrdd newydd eu trafod ymhellach cyn y Chweched Senedd. Bydd ei argymhellion ar gyfer rhagor o feysydd gwaith yn cael eu rhannu â’r Bwrdd newydd.

**7.4.** Gall argymhellion sy’n deillio o waith gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd arwain at ganlyniadau ar gyfer y Penderfyniad ac yn sicr bydd angen i'r Bwrdd eu trafod. Er nad yw cynnydd posibl ym maint y Senedd yn bosibl tan 2026 o leiaf, bydd y gwaith y mae angen i’r Bwrdd ei wneud i baratoi at hynny’n sylweddol ac yn cymryd amser, a bydd angen cychwyn arno cyn gynted â phosibl.

**7.5.** Er bod y Bwrdd presennol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i leihau rhwystrau i sefyll etholiad i'r Senedd i bobl â nodweddion penodol, o gefndiroedd penodol neu sydd â chyfrifoldebau penodol, mae'n debygol y bydd y Bwrdd newydd am drafod beth arall y gellid ei wneud yn hyn o beth. Er budd i ni oll yw’r ffaith bod aelodaeth senedd genedlaethol Cymru, sy’n gyfrifol am gynifer o agweddau ar fywyd pob dydd yng Nghymru, wir yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.

# Atodiad A: Diolchiadau

Drwy gydol adolygiad y Bwrdd, ac yn unol ag adran 2 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, ymgynghorodd y Bwrdd ag ystod o randdeiliaid. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i’r holl Aelodau o'r Senedd, eu staff, y Llywydd a Chomisiwn y Senedd, ac aelodau o'r cyhoedd am fynegi eu barn i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd am ddiolch yn benodol i'r unigolion a ganlyn am gymryd rhan yn yr adolygiad:

**Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau**: Vikki Howells AS a Mike Hedges AS (Llafur Cymru), Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru), Nick Ramsay AS (Ceidwadwyr Cymru) a Caroline Jones AS (Plaid Brexit).

**Grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth:** Anthony Cooper, Ash Lister, Charlotte Knight a Luke Young (Llafur Cymru yw pob un), James Radcliffe a Steffan Bryn (Plaid Cymru yw’r ddau), Paul Smith (Ceidwadwyr Cymru) a Mark Major (Plaid Brexit).

**Cyngor a gomisiynwyd:** Dr Huw Pritchard a'r Athro Roger Scully (Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd), yr Athro Diana Stirbu (Prifysgol Fetropolitan Llundain), Diverse Cymru.

**Comisiwn y Senedd:** Elin Jones AS (Llywydd), Douglas Bain (Comisiynydd Safonau Dros Dro), Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc), Lleu Williams (Clerc i’r Bwrdd), Ruth Hatton (Dirprwy Glerc i’r Bwrdd), Jo Adams, Carys Evans, Craig Griffiths, Martin Jennings, Nia Morgan, Anna Daniel, Daniel Collier, Huw Gapper (staff y Comisiwn).

Mae'r Bwrdd hefyd am ddiolch i'r cyrff a'r sefydliadau a ganlyn am gyflwyno ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn ystod yr adolygiad hwn:

Chwarae Teg
Staff cymorth Grŵp Plaid Cymru
Grŵp Plaid Cymru
Pwyllgor Busnes y Senedd
Comisiwn y Senedd
Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd
Grŵp Ceidwadwyr Cymru
Grŵp Llafur Cymru
Staff cymorth Grŵp Llafur Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

Yn unol â'r polisi preifatrwydd a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft, nid yw unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriadau wedi'u henwi yma. Mae'r Bwrdd yn diolch i'r holl unigolion a gyfrannodd i'r adolygiad.

# Atodiad B: Aelodaeth y Bwrdd

**Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)**



Mae'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn wleidydd Plaid Lafur Prydain a oedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau i'w sedd. Bu'n Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd rhwng mis Mehefin 2009 a mis Mai 2010, ac yn Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ers 2010. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â'r Blaid Lafur yn ystod ei chyfnod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain. Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol yng Ngholeg Polytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl ac, yn dilyn hynny, gwnaeth waith ymchwil PhD ym maes menywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 a bu'n gwasanaethu yn y swyddi a ganlyn:

- 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid dros Iechyd
- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid dros y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Y Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd
- 2009–2010: Y Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc
- Urddwyd Dawn yn Arglwyddes am Oes yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2015.

**Trevor Reaney**



Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a chyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, bu Trevor yn gweithio fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon, rhwng 1996 a 2003.

Erbyn hyn, mae Trevor yn gwneud gwaith ymgynghori ar ei liwt ei hun ac mae'n ymwneud â nifer o sefydliadau:

- Aelod o Fwrdd Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol).

**Michael Redhouse**



Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Bu Michael yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac mae'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Y Fonesig Jane Roberts**



Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored. Bu Jane yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain rhwng 2000 a 2005 ac, wedi hynny, mae wedi gwasanaethu mewn ystod o rolau anweithredol, gan gynnwys fel Cadeirydd Comisiwn y Cynghorwyr yn Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd y Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd a Chadeirydd yr elusen Living Streets ar hyn o bryd. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cynghori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cafodd Jane ei phenodi’n DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg ac yn seiciatrydd plant a phobl ifanc ymgynghorol anrhydeddus sydd â phrofiad o fod yn uwch reolwr gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academaidd ym maes pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Cyd-olygodd 'The Politics of Attachment' (1996) â Sebastian Kraemer a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017).

**Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 ymlaen)**



Mae Ronnie yn gyn Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru. Mae'n eiriolwr defnyddwyr i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac mae'n aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Yn ogystal, mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol i Estyn, yn Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae’n aelod o Bwyllgor Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Phwyllgorau Safonau Cyngor Bro Morgannwg. Mae hefyd yn cadeirio’r Panel Taliadau Annibynnol ar Lwfansau Aelodau Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf.

Roedd gyrfa Ronnie yn y gwasanaeth sifil yn rhychwantu dros 20 mlynedd, ac roedd newid hinsawdd a chynaliadwyedd o ddiddordeb arbennig iddo. Cyn hynny bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr mewn meysydd fel gorfodi a gwasanaethau

cymorth strategol. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i’r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

# Atodiad C: Canfyddiadau’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb.

Yn sgil yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar gynhaliwyd gan Diverse Cymru ar y Penderfyniad drafft ar gyfer 2021-2026, codwyd nifer o faterion i'r Bwrdd eu trafod. Mae'r tabl isod yn nodi manylion am y materion a godwyd ac ymateb y Bwrdd. Nodir llawer o'r materion hyn hefyd yn adran 5 o’r adroddiad hwn.

| Cyfeirnod y Penderfyniad | Mater a godwyd | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cyffredinol | Gall iaith gyfreithiol fod yn rhwystr i ddealltwriaeth pobl o ddogfennau. Dylai'r iaith a ddefnyddir yn y Penderfyniad fod mor syml â phosibl. | Adolygwyd a diwygiwyd geiriad y Penderfyniad yn unol â hynny. Cydnabu'r Bwrdd y gellid cynnal adolygiad mwy trylwyr o eiriad y Penderfyniad yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y geiriad mor hygyrch â phosibl. |
| Cyffredinol | Dylid ystyried sut y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar gynyddu mynediad at swyddi a chynyddu amrywiaeth (o ran yr holl nodweddion gwarchodedig) ymgeiswyr ac Aelodau - mae’n bosibl y gellir gwneud mwy i fodloni gofynion pobl wahanol. | Mae'r Bwrdd wedi derbyn newidiadau sylweddol i'r Penderfyniad at y dibenion hyn, er enghraifft y cymorth ychwanegol a nodir yn y Bennod 3A newydd i leihau rhwystrau i swydd etholedig, a darpariaethau newydd ar leoliadau gwaith gyda’r Aelodau neu bleidiau gwleidyddol a fydd yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith. yn yr amgylchedd gwleidyddol. Ar yr un pryd, cydnabu’r Bwrdd y gellid gwneud mwy yn y maes hwn a chytunodd i godi hyn fel mater i'r Bwrdd nesaf, sydd i'w benodi yn 2020, ei drafod. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyffredinol | Dylai'r ddogfen Benderfynu fod mor hygyrch â phosibl. | Gwnaeth y Bwrdd newidiadau penodol i'r Penderfyniad gan gynnwys mewnosod hyperlincs i ddogfennau eraill y cyfeiriwyd atynt a chael gwared ar acronymau. |
| Dehongli | Mae'r diffiniad o 'aelod o'r teulu' yn Rheolau Sefydlog y Senedd, y cyfeirir ato yn y Penderfyniad, yn cynnwys terminoleg rhyw-benodol y dylid ei newid i derminoleg nad yw'n ddeuaidd. | Cytunodd y Bwrdd i rannu'r sylwadau hyn i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes. |
| Dehongli | Gallai defnyddio'r term 'Ardal Caerdydd' i ddisgrifio'r ardal ddaearyddol o fewn radiws o bum milltir i'r Senedd arwain at ddryswch, oherwydd mae rhai ardaloedd yng Nghaerdydd y tu hwnt i bum milltir o'r Senedd. | Mae hyn yn wir, fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r term 'Ardal Caerdydd' wedi arwain at unrhyw faterion hyd yma ac felly penderfynodd y Bwrdd gadw'r defnydd o'r term hwn yn y Penderfyniad. |
| Pennod 1 - Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol | Awgrymodd Diverse Cymru y dylai egwyddorion arweiniol y Bwrdd ystyried nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol unigolion, fel bod penderfyniadau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r costau a rhwystrau ychwanegol y mae rhai pobl yn eu hwynebu. | Penderfynodd y Bwrdd ddiwygio ei egwyddorion arweiniol i egluro bod yn rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn ystyriol o nodweddion personol a/neu amgylchiadau'r Aelodau. |
| Pennod 1 - Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol | Egwyddor budd personol a amlinellir ym Mharagraff 1.3.5 o'r Penderfyniad, sy'n nodi bod yn rhaid i'r Aelodau sicrhau nad yw hawliadau'n arwain at fudd personol amhriodol na'r canfyddiad y gallai budd o'r fath olygu | Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau ar ddilysrwydd hawliadau a wneir. Yn unol â hynny, a heb dystiolaeth bod yr Aelodau'n ymatal rhag gwneud hawliadau, nid oedd y |

| | | |
|---|---|---|
| | na fyddai’r Aelodau’n hawlio treuliau dilys. | Bwrdd yn teimlo bod angen newidiadau i'r Penderfyniad mewn cysylltiad â Pharagraff 1.3.5. |
| Pennod 2 - Rheolau cyflwyno hawliadau | Dylid gwneud eithriad i'r rheol a nodir ym Mharagraff 2.3.8 bod yn rhaid i’r Aelodau gyflwyno hawliadau am daliad o fewn tri mis i ddiwedd y mis y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef. Dylid derbyn hawliadau hwyr pan nad oedd modd osgoi'r oedi cyn gwneud yr hawliad, am resymau megis salwch, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu am blant. | Mae geiriad Paragraff 2.3.8 yn darparu hyblygrwydd ar gyfer hawliadau hwyr ac, yn ymarferol, bydd y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau’n ystyried hawliadau treuliau hwyr pan fo'r rhesymau dros yr oedi’n ddilys. Roedd y Bwrdd o’r farn y gall cynnwys rhestr o seiliau penodol dros dderbyn hawliadau hwyr gael ei ystyried yn anghywir fel rhestr gynhwysfawr ond, mewn gwirionedd, y gellid derbyn hawliadau hwyr am ystod eang o resymau. Penderfynodd y Bwrdd beidio â gwneud y newid hwn i'r Penderfyniad. |
| Pennod 3A – Cymorth ychwanegol | Ni ddylai diffiniad dibynyddion at ddiben y lwfans gofal fod yn gyfyngedig i aelodau teulu yn unig, ar y sail ei bod yn bosibl bod Aelod neu ddarpar ymgeisydd yn darparu gofal rheolaidd i oedolion heblaw am aelodau teulu. | Trafododd y Bwrdd sut y mae 'dibynyddion eraill' wedi’u diffinio mewn cyd-destunau eraill. Ar y sail nad yw'r cymorth sydd ar gael mewn cyd-destunau eraill fel arfer yn gyfyngedig i ofal am aelodau teulu yn unig, penderfynodd y Bwrdd estyn y ddarpariaeth i ganiatáu ar gyfer ad-dalu costau gofal i oedolion nad ydynt yn aelodau teulu. Mae’r fersiwn derfynol o’r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn caniatáu i’r Aelodau hawlio am gostau gofal oedolion sy'n byw gyda'r Aelod, gyda rhai cyfyngiadau, neu berson sy'n dibynnu'n rhesymol ar yr Aelod am ei ofal neu drefnu ei ofal. |

| | | |
|---|---|---|
| Pennod 3A – Cymorth ychwanegol | Dylid cymhwyso rhywfaint o hyblygrwydd i'r gofyniad y dylai'r Aelodau sydd am hawlio cymorth ychwanegol pan fyddant ar absenoldeb rhiant roi gwybod i Gomisiwn y Senedd am eu bwriad i gymryd absenoldeb rhiant cyn eu dyddiad gadael. Nodwyd nad yw bob amser yn bosibl i'r Aelodau roi rhybudd ymlaen llaw o'r angen i gymryd absenoldeb rhiant. | Roedd y Bwrdd yn teimlo bod geiriad y darpariaethau perthnasol yn y Penderfyniad eisoes yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddiystyru'r gofyniad hwn pan fo'n briodol gwneud hynny. |
| Pennod 3A – Cymorth ychwanegol | Dylid aralleirio'r Penderfyniad i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd, yn hytrach na'r model meddygol a adlewyrchir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r model meddygol yn rhoi'r ffocws ar y nodweddion personol nad ydynt yn caniatáu i berson ymgymryd â gweithgareddau penodol, h.y. cyflyrau neu namau iechyd. Mae'r model cymdeithasol yn rhoi'r ffocws ar y rhwystrau cymdeithasol sy'n atal person â chyflyrau neu namau iechyd penodol rhag ymgymryd â gweithgareddau penodol. | Cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad hwn ac aileirio'i Benderfyniad i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd. |
| Pennod 3A – Cymorth ychwanegol | Byddai'n ddefnyddiol egluro'r ystod o weithwyr a lleoliadau y gallai'r term 'darparwr gofal cofrestredig' eu cynnwys. Fel y mae'n darllen ar hyn o bryd, dim ond rhai darparwyr fyddai'n cael eu derbyn, sy'n rhwystr i lawer o bobl. | Cytunodd y Bwrdd i fewnosod yn y Penderfyniad enwau'r sefydliadau y mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal yng Nghymru gofrestru gyda hwy. Ystyrir bod darparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r sefydliadau hyn yn ddarparwyr gofal cofrestredig. |
| Pennod 4 - Gwariant ar lety preswyl | Mae Paragraff 4.4.2 o'r Penderfyniad yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod sy'n byw yn yr ardal allanol gael caniatâd i hawlio | Yn ymarferol, byddai'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ystyried bod gofynion hygyrchedd yn gyfystyr â gofynion rhesymol. Penderfynodd y |

| | | |
|---|---|---|
| | ad-daliad o gostau rhentu eiddo â dodrefn yn ardal Caerdydd. Un amod o'r fath yw bod yn rhaid i'r eiddo yr hawlir costau rhentu ar ei gyfer ddiwallu anghenion rhesymol yr Aelod yn unig, e.e. ni ddylai eiddo o'r fath fod yn fwy na’r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu gofynion yr Aelod. Dylid diwygio'r paragraff hwn i egluro y gallai 'gofynion rhesymol' gynnwys gofynion hygyrchedd Aelod neu ofynion sy'n deillio o ofalu am ddibynyddion. | Bwrdd yn erbyn rhestru mathau penodol o ofynion rhesymol oherwydd y risg y gellid ystyried bod rhestr o'r fath yn gynhwysfawr. |
| Pennod 5 - Teithio'r Aelodau | Dylai'r Bwrdd ystyried cynnwys datganiad clir ym Mhennod 5 i gydnabod, er nad teithio mewn car neu dacsi yw'r ffordd fwyaf costeffeithiol o deithio bob amser, y gall fod yr unig ddull dichonol i rai pobl anabl deithio, felly y dylid caniatáu ar gyfer hynny yn y Penderfyniad. | Cytunodd y Bwrdd a phenderfynodd gynnwys egwyddor gyffredinol newydd ym Mhennod 5 i egluro bod teithio costeffeithiol yn golygu'r dull neu ddosbarth teithio rhataf sy'n briodol yn ôl gofynion Aelodau anabl. |
| Pennod 6 - Cronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr | Dylai egwyddor ar hygyrchedd swyddfa Aelod, y mae'n rhaid i’r Aelodau ei dilyn wrth gaffael swyddfa, fod yn egwyddor annibynnol oherwydd ei phwysigrwydd, yn hytrach na'i chynnwys mewn egwyddor ehangach sy'n ymwneud â diogelwch swyddfa. | Cytunodd y Bwrdd a gwahanodd y ddwy egwyddor. |
| Pennod 6 - Cronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr | Dylai'r Penderfyniad ganiatáu ar gyfer 'addasiadau rhesymol' i swyddfeydd megis creu ystafell weddïo neu ystafell dawel pan fo angen. Dylai ganiatáu ar gyfer ad-dalu costau cyfieithu a dehongli a ysgwyddir at ddiben ymgysylltu ag etholwyr. | Mae’r Bwrdd o’r farn bod y darpariaethau ym Mhennod 6 yn ddigon eang er mwyn caniatáu ad-dalu'r holl gostau o'r fath, ac na ddylid rhestru'r dibenion penodol y caniateir defnyddio'r lwfans hwn ar eu cyfer oherwydd y risg y gellid |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried bod rhestr o'r fath yn gynhwysfawr. Yn hytrach, gofynnodd y Bwrdd i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau egluro yn ei gyngor i'r Aelodau y caniateir defnyddio'r Lwfans Costau Swyddfa at ddibenion o'r fath. Gallai costau ymgysylltu ag etholwyr drwy ddehonglwr iaith arwyddion gael eu hawlio o dan y Bennod 3A newydd ynghylch cymorth ychwanegol i'r Aelodau. |
| Pennod 7 - Cymorth staffio i'r Aelodau | Mae Paragraff 7.12.2 o'r Penderfyniad yn nodi amgylchiadau pan gaiff yr Aelodau wneud cais am Lwfans Staffio Dros Dro, yn nodweddiadol pan na all deiliad swydd barhaol weithio am resymau amrywiol. Awgrymodd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i'r Bwrdd ystyried cynnwys absenoldeb gofalwr, absenoldeb sy'n ymwneud ag anabledd ac absenoldeb tosturiol estynedig fel rhesymau ychwanegol i ganiatáu i Lwfans Staffio Dros Dro gael ei hawlio. | Cytunodd y Bwrdd i wneud newidiadau i'r Penderfyniad er mwyn caniatáu i'r Lwfans Staffio Dros Dro gael ei hawlio fel cyflenwad ar gyfer aelod staff cymorth sy'n absennol o'r gwaith oherwydd anabledd neu absenoldeb tosturiol estynedig. Ar hyn o bryd, nid yw staff cymorth yr Aelodau'n gymwys i gael absenoldeb gofalwr. Roedd y Bwrdd yn teimlo y gallai fod yn werth i'r Bwrdd nesaf drafod y mater hwn ar ôl ei benodi. |